
# Atodiad D

# Asesiadau Effaith
# Ysgol Abersoch

| |
|---|
| Asesiad Effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg |
| Asesiad Effaith debygol ar drefniadau teithio |
| Asesiad Effaith debygol ar y Gymuned |
| Asesiad Effaith Ieithyddol |
| Asesiad Llesiant |
| Asesiad Cydraddoldeb |




# Adroddiad Asesiad o'r effaith tebygol ar Ansawdd a Safonau Addysg - Ysgol Abersoch

- Mai 2021

## Cynnwys


1. CYFLWYNIAD
2. CRYNODEB
3. ASESIAD O’R EFFAITH TEBYGOL AR SAFONAU AC ANSAWDD ADDYSG
4. CASGLIADAU

## 1. CYFLWYNIAD

Yn ei gyfarfod ar 17 Medi 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd roi caniatâd i'r Adran Addysg
*"gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill Ysgol Abersoch yn sgil pryderon ynghylch niferoedd yr ysgol, i alluogi llunio ystod o opsiynau posibl yn ymwneud a dyfodol yr ysgol."*

Yn unol â phenderfyniad y Cabinet (17 Medi 2019), sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol Abersoch (PAY) gan wahodd y Corff Llywodraethol, rhieni a staff a'r Aelod Lleol i ymuno â'r panel a chymryd rhan yn y drafodaeth. Cynhaliwyd tri chyfarfod PAY rhwng Hydref 2019 ac Ionawr 2020 i drafod ystod o opsiynau i geisio datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu.

Yn ei gyfarfod ar 15 Medi 2020, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd benderfynu ymgymryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach, ar y 1af Medi 2021. Cadarnhawyd y penderfyniad gan y Cabinet yn eu cyfarfod ar 3 Tachwedd 2020, yn dilyn i'r penderfyniad gwreiddiol gael ei alw mewn a'i gyfeirio'n ôl i'r Cabinet gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn ei gyfarfod ar 8 Hydref 2020.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu cynnig/cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgol/ysgolion, mae'n ofynnol i'r awdurdod gynnal asesiad o effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu addysg o'r ansawdd gorau bosibl a fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn.

Mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i ddarparu'r profiadau dysgu gorau bosibl - ar gyfer pob dysgwr o fewn y Sir, i sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang, yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol sy'n eu hysgogi i ddysgu a deall, a fydd yn arwain at wella safonau.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 12 Ionawr a 23 Chwefror 2021, a derbyniwyd 154 ymateb i'r ymgynghoriad.

## 2. CRYNODEB

Yn dilyn arolygiad Estyn diwethaf yn 2017 daethpwyd i'r casgliad fod perfformiad presennol Ysgol Abersoch yn Dda.

Yn 2019, gosodwyd yr ysgol yng nghategori cefnogaeth Melyn gan y consortia rhanbarthol o dan System Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl eu safonau addysgol cyfredol a'u gofynion gwella. Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio ysgol categori 'Melyn' fel "ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac yn gwybod pa feysydd sydd angen iddi eu gwella".

Gweler isod grynodeb o arolygon diweddaraf ysgolion cyfagos, neu ysgolion sydd yn destun unrhyw un o'r modelau posib ar gyfer dyfodol Ysgol Abersoch.

## 2.1 Ysgol Abersoch

Mae Ysgol Abersoch wedi ei lleoli yng nghanol pentref Abersoch ger Pwllheli, ac yn darparu addysg ar gyfer disgyblion 3-8 oed. Yn dilyn blwyddyn 3, mae disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Sarn Bach, sef yr ysgol gyfagos. Pan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2017, roedd 21 disgybl ar y gofrestr, gan gynnwys 6 disgybl meithrin rhan amser.

| Ysgol | Blwyddyn yr archwiliad | Pa mor dda yw'r deilliannau? | Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Categori Cefnogaeth Llywodraeth Cymru 2019 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Abersoch** | Mehefin 2017 | Da | Da | Da | Melyn |

## 2.2 Ysgolion eraill yr ardal

| Ysgol | Blwyddyn yr archwiliad | Pa mor dda yw'r deilliannau? | Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Categori Cefnogaeth Llywodraeth Cymru 2019 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llanbedrog** | Mai 2014 | Da | Da | Da | Gwyrdd |
| **Foel Gron** | Hydref 2015 | Da | Da | Da | Melyn |
| **Crud y Werin** | Gorffennaf 2014 | Digonol | Digonol | Da | Melyn |
| **Pont y Gof** | Rhagfyr 2015 | Da | Da | Da | Gwyrdd |

Mae'r tabl isod yn crynhoi adroddiad arolwg Estyn yr ysgol sydd wedi cael eu harolygu ers Medi 2017, pan fu i Estyn gyflwyno'r pum maes arolygu:

| Ysgol | Blwyddyn yr archwiliad | Safonau | Lles ac agweddau at ddysgu | Addysgu a phrofiadau dysgu | Gofal, cymorth ac arweiniad | Arweinyddiaeth a rheolaeth | Categori Cefnogaeth Llywodraeth Cymru 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sarn Bach** | Hydref 2017 | Da | Da | Da | Da | Da | Melyn |
| **Botwnnog** | Hydref 2019 | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol | Da | Gwyrdd |

## 3. YR OPSIYNAU DAN SYLW

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

Noder, er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r model Gwneud dim wedi ei gynnwys yn yr asesiad at ddiben cymharu.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng ysgol/ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynyddu ar gyfleoedd y disgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

Yn yr achos yma, am resymau daearyddol, ystyriwyd Ysgol Sarn Bach, ac Ysgol Llanbedrog fel opsiynau rhesymol ar gyfer y trefniant cydweithiol. Ni ystyriwyd Ysgol Foel Gron gan nad yw hi'n bosib ffederaleiddio ysgolion sydd â statws elusennol, gydag ysgolion sydd â statws Cymunedol.

- *Ymestyn ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed*

Ar hyn o bryd, mae ystod oedran Ysgol Abersoch yn golygu fod darpariaeth addysg yr ysgol yn dod i ben ar ddiwedd blwyddyn 3. Byddai ymestyn ystod yr oedran i 3-11 yn golygu fod yr ysgol yn cael parhau i addysgu disgyblion hyd ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, sef diwedd blwyddyn 6. Byddai hyn yn gyson gydag ystod oedran y mwyafrif o ysgolion cynradd y sir.

- *Cau Ysgol Abersoch a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol gyfagos*

Golygai'r opsiwn yma y byddai Ysgol Abersoch yn cau, ac y byddai disgyblion presennol yn cael cynnig lle yn Ysgol Sarn Bach (yr ysgol amgen).

**Opsiynau pellach a ystyriwyd yn dilyn yr ymgynghoriad statudol:**

- *Ysgol Aml-Safle*

Yr hyn a olygir wrth Ysgol Aml-Safle yw y bydd un ysgol yn cael ei sefydlu ond ar ddwy neu dair safle. Yn statudol bydd gan yr ysgol un endid cyfreithiol, a bydd gan yr ysgol un Pennaeth, gyda rheolwr/wyr ar safleoedd gwahanol. Bydd gan yr ysgol un gyllideb ac un corff llywodraethol, a bydd yr holl safleoedd y derbyn arolygiadau Estyn yr un pryd – fel un ysgol.

Pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu yna byddai dalgylchoedd yr ysgolion presennol yn cael eu haddasu. Gweithredir Polisi Cludiant a Pholisi Mynediad yr Awdurdod fel yr arfer. Felly byddai unrhyw gais mynediad i'r Ysgol Aml-safle i'w ystyried fel cais i'r ysgol yn gyflawn. Byddai rheolaeth o ran mynediad i'r safleoedd gwahanol yn dod yn rhan o bolisïau'r ysgol.

- *Ffederaleiddio gydag Ysgol Sarn Bach a Llanbedrog, a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron.*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng yr ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

- *Ffederasiwn Enlli – (Ysgolion Abersoch, Llanbedrog, Sarn Bach, Pont Y Gof, Crud y Werin, Uwchradd Botwnnog a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron).*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng yr ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

**GWNEUD DIM - ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL AR ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG**

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Dim newid | Niwtral |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | Dim newid | Niwtral |
| Profiadau addysgu a dysgu | Dim newid | Niwtral |
| Arweiniad a chymorth gofal | Dim newid | Niwtral |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Dim newid | Niwtral |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Dim newid | Niwtral |
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Dim newid | Niwtral |

*Mae'r asesiad uchod wedi'i wneud yn seiliedig ar wybodaeth adroddiad Estyn Ysgol Abersoch Mehefin 2017.*

**YMESTYN YSTOD OEDRAN YR YSGOL O 3-8 OED I 3-11 OED –**
**ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL AR ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG**

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ymestyn ystod oedran yr ysgol. | Niwtral |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ymestyn ystod oedran yr ysgol. | Niwtral |
| Profiadau addysgu a dysgu | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ymestyn ystod oedran yr ysgol. | Niwtral |
| Arweiniad a chymorth gofal | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ymestyn ystod oedran yr ysgol. | Niwtral |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ymestyn ystod oedran yr ysgol. | Niwtral |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ymestyn ystod oedran yr ysgol. | Niwtral |
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ymestyn ystod oedran yr ysgol. | Niwtral |

*Mae'r asesiad uchod wedi'i wneud yn seiliedig ar wybodaeth adroddiad Estyn Ysgol Abersoch Mehefin 2017.*

**FFEDERALEIDDIO - ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL AR ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG**

| **Positif** | **Niwtral** | **Negyddol** |
|---|---|---|

| **Meini Prawf Effaith** | **Disgrifiad** | **Statws o'r effaith a'r gwaith** |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos. Mae pob un o'r ysgolion dan sylw wedi eu gosod yn yr un categori ac Abersoch, fan lleiaf. | Niwtral |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos. Mae pob un o'r ysgolion dan sylw wedi eu gosod yn yr un categori ac Abersoch, fan lleiaf. | Niwtral |
| Profiadau addysgu a dysgu | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos. Byddai model ffederal yn debygol o gynnwys yr un cyfleon, gyda'r posibilrwydd o ehangu ar hynny. | Positif |
| Arweiniad a chymorth gofal | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos. Mae pob un o'r ysgolion dan sylw wedi eu gosod yn yr un categori ac Abersoch, fan lleiaf. | Niwtral |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Yn ddibynnol ar yr union fodel ffederal, gall arwain at arbed amser y Pennaeth drwy gynllunio ar draws y ffederasiwn yn hytrach nac ar gyfer ysgolion unigol. | Positif |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Ni fyddai darpariaethau i grwpiau agored i niwed yn newid o dan fodel ffederal. | Niwtral |
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Dim effaith gan y bydd Ysgol Abersoch yn parhau. | Niwtral |

*Mae'r asesiad uchod wedi'i wneud yn seiliedig ar wybodaeth adroddiad Estyn Ysgol Abersoch Mehefin 2017; Ysgol Sarn Bach Hydref 2017, ac Ysgol Llanbedrog Mai 2014.*

**CAU YSGOL ABERSOCH A CHYNNIG LLE I'R DISGYBLION MEWN YSGOL AMGEN - ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL AR ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG**

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Roedd canlyniad arolwg estyn ar gyfer y dangosyddion safonau Ysgol Abersoch yn 'Dda', fel ag yr oedd canlyniad arolwg Ysgol Sarn Bach. Yn seiliedig ar wybodaeth yr arolygon diwethaf (2017) ni ragwelir unrhyw effaith drwy addysgu'r plant yn Ysgol Sarn Bach. | Niwtral |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | 'Digonol' oedd canlyniad y dangosydd 'Lles' ar gyfer Ysgol Abersoch, yn eu harolwg diwethaf yn 2017, tra bod y canlyniad yn Ysgol Sarn Bach yn 'Dda'. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, deuir i'r casgliad y byddai addysgu'r plant yn Ysgol Sarn Bach yn cael effaith bositif. | Positif |
| Profiadau addysgu a dysgu | 'Digonol' oedd canlyniad y dangosydd 'profiadau dysgu' yn Ysgol Abersoch, a 'da' oedd canlyniad y dangosydd 'addysgu'. Roedd canlyniad arolwg estyn ar gyfer dangosyddion 'Addysgu a phrofiadau dysgu' yn 'Dda' yn Ysgol Sarn Bach yn 2017. O ganlyniad, bernir y byddai'r opsiwn o bosib yn cael effaith bositif ar brofiadau addysgu a dysgu'r disgyblion. Gall Ysgol Sarn Bach gynnig cyfle i addysgu mewn grwpiau mwy a gyda chyfoedion i ehangu ar eu profiadau. | Positif |
| Arweiniad a chymorth gofal | Roedd canlyniad y dangosyddion 'Arweiniad a chymorth gofal' yn 'Dda' yn arolwg diwethaf Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach. Yn seiliedig ar y wybodaeth yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar y maes yma trwy addysgu'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach. | Niwtral |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Nodwyd yn adroddiad Estyn diwethaf Ysgol Abersoch fod yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn yr ysgol yn 'Dda'. Rhoddwyd Ysgol Sarn Bach yn y categori 'Da' yn ogystal. | Niwtral |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, fel ym mhob ysgol yng Ngwynedd. | Niwtral |
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Roedd canlyniad arolwg estyn ar gyfer y dangosyddion safonau Ysgol Abersoch yn 'Dda', fel ag yr oedd canlyniad arolwg Ysgol Sarn Bach. Yn seiliedig ar wybodaeth yr arolygon diwethaf (2017) ni ragwelir unrhyw effaith drwy addysgu'r plant yn Ysgol Sarn Bach. | Niwtral |

*Mae'r asesiad uchod wedi'i wneud yn seiliedig ar wybodaeth adroddiad Estyn Ysgol Abersoch Mehefin 2017, ac Ysgol Sarn Bach Hydref 2017.*

**YSGOL AML-SAFLE - ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL AR ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG**

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy sefydlu Ysgol Aml Safle. Mae pob un o'r ysgolion dan sylw (Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Llanbedrog) wedi eu gosod yn yr un categori ac Abersoch, fan lleiaf. | Niwtral |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy sefydlu Ysgol Aml Safle. Mae pob un o'r ysgolion dan sylw (Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Llanbedrog) wedi eu gosod yn yr un categori ac Abersoch, fan lleiaf. | Niwtral |
| Profiadau addysgu a dysgu | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy sefydlu Ysgol Aml Safle. Byddai model Ysgol Aml-Safle yn debygol o gynnwys yr un cyfleon, gyda'r posibilrwydd o ehangu ar hynny. | Positif |
| Arweiniad a chymorth gofal | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy sefydlu Ysgol Aml Safle. Mae pob un o'r ysgolion dan sylw (Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Llanbedrog) wedi eu gosod yn yr un categori ac Abersoch, fan lleiaf. | Niwtral |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Gall model Ysgol Aml-Safle arwain at arbed amser y Pennaeth, drwy gynllunio ar draws y safleoedd yr ysgol yn hytrach nac ar gyfer ysgolion unigol. | Positif |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Ni ragwelir y byddai darpariaethau i grwpiau agored i niwed yn newid o dan fodel Ysgol Aml-Safle. | Niwtral |
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy sefydlu Ysgol Aml Safle. Mae pob un o'r ysgolion dan sylw (Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Llanbedrog) wedi eu gosod yn yr un categori ac Abersoch, fan lleiaf. | Niwtral |

*Mae'r asesiad uchod wedi'i wneud yn seiliedig ar wybodaeth adroddiad Estyn Ysgol Abersoch Mehefin 2017; Ysgol Sarn Bach Hydref 2017, ac Ysgol Llanbedrog Mai 2014.*

**FFEDERALEIDDIO YSGOL ABERSOCH, SARN BACH A LLANBEDROG,**
**A THREFNIANT CYDWEITHIO HEFO YSGOL FOEL GRON**
**- ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL AR ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG**

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos. Mae pob un o'r ysgolion dan sylw wedi eu gosod yn yr un categori ac Abersoch, fan lleiaf. | Niwtral |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos. Mae pob un o'r ysgolion dan sylw wedi eu gosod yn yr un categori ac Abersoch, fan lleiaf. | Niwtral |
| Profiadau addysgu a dysgu | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos. Byddai model ffederal yn debygol o gynnwys yr un cyfleon, gyda'r posibilrwydd o ehangu ar hynny. | Positif |
| Arweiniad a chymorth gofal | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos. Mae pob un o'r ysgolion dan sylw wedi eu gosod yn yr un categori ac Abersoch, fan lleiaf. | Niwtral |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Yn ddibynnol ar yr union fodel ffederal, gall arwain at arbed amser y Pennaeth drwy gynllunio ar draws y ffederasiwn yn hytrach nac ar gyfer ysgolion unigol. | Positif |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Ni fyddai darpariaethau i grwpiau agored i niwed yn newid o dan fodel ffederal. | Niwtral |
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Dim effaith gan y bydd Ysgol Abersoch yn parhau. | Niwtral |

*Mae'r asesiad uchod wedi'i wneud yn seiliedig ar wybodaeth adroddiad Estyn Ysgol Abersoch Mehefin 2017; Ysgol Sarn Bach Hydref 2017, ac Ysgol Llanbedrog Mai 2014.*

**FFEDERASIWN ENLLI**

(YSGOLION ABERSOCH, LLANBEDROG, SARN BACH, PONT Y GOF, CRUD Y WERIN, UWCHRADD BOTWNNOG A THREFNIANT CYDWEITHIO HEFO YSGOL FOEL GRON)

**- ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL AR ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG**

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|


| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos. Mae pob un o'r ysgolion dan sylw wedi eu gosod yn yr un categori ac Abersoch, fan lleiaf. | Niwtral |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos. Mae pob un o'r ysgolion dan sylw wedi eu gosod yn yr un categori ac Abersoch, fan lleiaf. | Niwtral |
| Profiadau addysgu a dysgu | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos. Byddai model ffederal yn debygol o gynnwys yr un cyfleon, gyda'r posibilrwydd o ehangu ar hynny. | Positif |
| Arweiniad a chymorth gofal | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos. Mae pob un o'r ysgolion dan sylw wedi eu gosod yn yr un categori ac Abersoch, fan lleiaf. | Niwtral |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Yn ddibynnol ar yr union fodel ffederal, gall arwain at arbed amser y Pennaeth drwy gynllunio ar draws y ffederasiwn yn hytrach nac ar gyfer ysgolion unigol. | Positif |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Ni fyddai darpariaethau i grwpiau agored i niwed yn newid o dan fodel ffederal. | Niwtral |
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Dim effaith gan y bydd Ysgol Abersoch yn parhau. | Niwtral |

*Mae'r asesiad uchod wedi'i wneud yn seiliedig ar wybodaeth adroddiad Estyn Ysgol Abersoch Mehefin 2017; Ysgol Sarn Bach Hydref 2017, Ysgol Llanbedrog Mai 2014, Ysgol Foel Gron Hydref 2015, Ysgol Pont y Gof Rhagfyr 2015, Ysgol Crud y Werin Gorffennaf 2014, ac Ysgol Botwnnog Hydref 2019.*

## 4. CASGLIADAU

Yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiadau uchod, deuir i'r casgliad fod safon yr addysg a ddarperir yn yr ysgolion cyfagos, yn benodol Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Llanbedrog ar yr un lefel â safon yr addysg yn Ysgol Abersoch. O ganlyniad felly, ni ragwelir effeithiau negyddol o safbwynt ansawdd a safonau addysg yn deillio o'r un o'r opsiynau i ffederaleiddio, sefydlu Ysgol Aml-Safle na chau Ysgol Abersoch a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Sarn Bach. Yn yr un modd, ni ragwelir effeithiau negyddol o safbwynt ansawdd a safonau'r addysg yn deillio o'r opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol o 3-8 i 3-11.

Mae'r wybodaeth yn yr asesiad hwn yn dilyn arolygon diweddaraf Estyn yn yr ysgolion dan sylw yn nodi fod pob un o'r ysgolion wedi eu gosod mewn categori cyfatebol fan lleiaf i Ysgol Abersoch, a phob un o'r ysgolion wedi eu gosod yn y categori melyn, neu wyrdd o safbwynt categori cefnogaeth Llywodraeth Cymru.




# Adroddiad Asesiad ar yr Effaith Tebygol ar Drefniadau Teithio - Ysgol Abersoch

- Mai 2021

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **1. CYFLWYNIAD** | |
| **1.1 Polisi Cludiant Cyngor Gwynedd** | |
| **1.2 Cyd-destun Ysgol Abersoch** | |
| **2. Opsiynau** | |
| **3. ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL AR DREFNIADAU TEITHIO** | |
| **3.1 Lleoliad yr ysgol amgen** | |
| **3.2 Opsiynau cludiant di-dâl** | |
| **3.3. Effaith ariannol** | |
| **4. CASGLIADAU** | |

# 1. CYFLWYNIAD

Yn ei gyfarfod ar 17 Medi 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd roi caniatâd i'r Adran Addysg *"gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill Ysgol Abersoch yn sgil pryderon ynghylch niferoedd yr ysgol, i alluogi llunio ystod o opsiynau posibl yn ymwneud a dyfodol yr ysgol."*

Yn unol â phenderfyniad y Cabinet (17 Medi 2019), sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol Abersoch (PAY) gan wahodd y Corff Llywodraethol, rhieni a staff a'r Aelod Lleol i ymuno â'r panel a chymryd rhan yn y drafodaeth. Cynhaliwyd tri chyfarfod PAY rhwng Hydref 2019 ac Ionawr 2020 i drafod ystod o opsiynau i geisio datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu.

Yn ei gyfarfod ar 15 Medi 2020, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd benderfynu ymgymryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach, ar y 1af Medi 2021. Cadarnhawyd y penderfyniad gan y Cabinet yn eu cyfarfod ar 3 Tachwedd 2020, yn dilyn i'r penderfyniad gwreiddiol gael ei alw mewn a'i gyfeirio'n ôl i'r Cabinet gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn ei gyfarfod ar 8 Hydref 2020.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu cynnig/cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgol/ysgolion, mae'n ofynnol i'r awdurdod gynnal asesiad o'r effaith tebygol ar wahanol drefniadau teithio, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu addysg o'r ansawdd gorau bosibl a fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn.

Mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i ddarparu'r profiadau dysgu gorau bosibl - ar gyfer pob dysgwr o fewn y Sir, i sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang, yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol sy'n eu hysgogi i ddysgu a deall, a fydd yn arwain at wella safonau.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 12 Ionawr a 23 Chwefror 2021, a derbyniwyd 154 ymateb i'r ymgynghoriad.

## 1.1 Polisi Cludiant Cyngor Gwynedd

Mae strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'* yn anelu at gyfyngu teithio o'r cartref i'r ysgol i daith un ffordd sydd heb fod yn fwy na 30 munud.

Mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant di-dâl i ddysgwyr sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (ddim yn cynnwys disgyblion meithrin). Disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd. Mae'r polisi cludiant i'w weld yn y llawlyfr i rieni: (https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dogfennau-trigolion/Ysgolion-a-dysgu---dogfennau/Talu-eich-ysgol/Gwybodaeth-i-Rieni-2019-20-2.pdf)

### 1.2 Cyd-destun Ysgol Abersoch

Mae Ysgol Abersoch wedi ei lleoli yng nghanol pentref Abersoch ger Pwllheli, ac yn darparu addysg ar gyfer disgyblion 3-8 oed. Yn dilyn blwyddyn 3, mae disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Sarn Bach, sef yr ysgol gyfagos.

Yn Medi 2020, roedd 26 o ddisgyblion rhwng 3-8 oed yn byw yn nalgylch Ysgol Aberoch – 5 o'r disgyblion hynny oedd yn mynychu Ysgol Abersoch. Golyga hyn fod 21 o ddisgyblion y dalgylch (rhwng 3-8 oed) yn mynychu ysgolion all-dalgylch. Yn ogystal, roedd 5 o ddisgyblion Ysgol Abersoch yn byw all-dalgylch. Ceir mwy o wybodaeth yn y tabl isod:

| | | Byw yn Dalgylch (Medi 2020) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Abersoch* (M-Bl3)** | **Sarn Bach** | **Llanbedrog** | **Foel Gron** | **Arall** | **Cyfanswm Ysgol (M-Bl6)** |
| **Mynychu Ysgol (Medi 2020)** | **Abersoch* (M-Bl3)** | 5 | 1 | - | - | 4 | 10 |
| | **Sarn Bach** | 9 | 28 | - | 2 | 9 | 48 |
| | **Llanbedrog** | 6 | 6 | 58 | 15 | 17 | 102 |
| | **Foel Gron** | 2 | 4 | 4 | 24 | 9 | 43 |
| | **Arall** | 4 | 2 | 2 | 1 | | |
| **Cyfanswm** | | 26 | 41 | 64 | 42 | | |

Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2020

## 2. YR OPSIYNAU DAN SYLW

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

*(Er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r model yma wedi ei gynnwys yn yr asesiad er diben cymharu.)*

**Gan y byddai'r model yma'n golygu fod disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Abersoch, ni ragwelir y byddai'r model hwn yn cael unrhyw effaith ar y trefniadau teithio presennol.**

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng ysgol/ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

Yn yr achos yma, am resymau daearyddol, ystyriwyd Ysgol Sarn Bach, ac Ysgol Llanbedrog fel opsiynau rhesymol ar gyfer y trefniant cydweithiol. Ni ystyriwyd Ysgol Foel Gron gan nad yw hi'n bosib ffederaleiddio ysgolion sydd â statws elusennol, gyda rhai sydd â statws Cymunedol.

**Gan y byddai'r model yma'n golygu fod disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Abersoch, ni ragwelir y byddai'r model hwn yn cael effaith ar y trefniadau teithio presennol.**

- *Ymestyn ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed*

Ar hyn o bryd, mae ystod oedran Ysgol Abersoch yn golygu fod darpariaeth addysg yr ysgol yn dod i ben ar ddiwedd blwyddyn 3. Byddai ymestyn ystod yr oedran i 3-11 yn golygu fod yr ysgol yn gallu parhau i addysgu disgyblion hyd ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, sef diwedd blwyddyn 6. Byddai hyn yn gyson gydag ystod oedran y mwyafrif o ysgolion cynradd y sir.

**Gan y byddai'r model yma'n golygu fod disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Abersoch, ni ragwelir y byddai'r model hwn yn cael effaith ar drefniadau teithio disgyblion presennol yr ysgol. Fodd bynnag, pe byddai'r opsiwn yn cael ei weithredu, byddai'n rhaid ystyried ymhellach yr effaith all newid y dalgylchoedd ei gael ar drefniadau cludiant presennol disgyblion 8-11 oed ardal Abersoch sydd eisoes yn dewis mynychu Ysgol Sarn Bach.**

- *Cau Ysgol Abersoch a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen*

Golygai'r model yma y byddai Ysgol Abersoch yn cau, ac y byddai'r disgyblion presennol yn cael cynnig lle yn Ysgol Sarn Bach (yr ysgol amgen).

**Mae Ysgol Sarn Bach wedi ei lleoli 1.4 milltir o Ysgol Abersoch. Yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd byddai'r awdurdod yn darparu cludiant i ddisgyblion dalgylch presennol Ysgol Abersoch fyddai'n dewis mynychu Ysgol Sarn Bach ac yn byw mwy na 2 filltir o'r ysgol.**

**Yn ogystal, o ran y disgyblion fyddai'n dewis mynychu Ysgol Sarn Bach ond yn byw llai na 2 filltir i ffwrdd o'r ysgol, ac nad oes ganddynt felly hawl i gludiant di-dâl, ond yn teithio i ysgol ar hyd ffordd mae'r Cyngor yn ei hystyried yn beryglus iawn, darperir cludiant di-dâl.**

**Opsiynau a ystyriwyd yn dilyn yr ymgynghoriad statudol:**

- *Ysgol Aml-Safle*

Yr hyn a olygir wrth Ysgol Aml-Safle yw y bydd un ysgol yn cael ei sefydlu ond ar ddwy neu dair safle. Yn statudol bydd gan yr ysgol un endid cyfreithiol, a bydd gan yr ysgol un Pennaeth, gyda rheolwr/wyr ar safleoedd gwahanol. Bydd gan yr ysgol un gyllideb ac un corff llywodraethol, a bydd yr holl safleoedd y derbyn arolygiadau Estyn yr un pryd – fel un ysgol.

Pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu yna byddai dalgylchoedd yr ysgolion presennol yn cael eu haddasu. Gweithredir Polisi Cludiant a Pholisi Mynediad yr Awdurdod fel yr arfer. Felly byddai unrhyw gais mynediad i'r Ysgol Aml-safle i'w ystyried fel cais i'r ysgol yn gyflawn. Byddai rheolaeth o ran mynediad i'r safleoedd gwahanol yn dod yn rhan o bolisïau'r ysgol.

**Gan y byddai'r model yma'n golygu fod disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Abersoch, ni ragwelir y byddai'r model hwn yn cael unrhyw effaith ar y trefniadau teithio presennol.**

- *Ffederaleiddio gydag Ysgol Sarn Bach a Llanbedrog, a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron.*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng yr ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

**Gan y byddai'r model yma'n golygu fod disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Abersoch, ni ragwelir y byddai'r model hwn yn cael effaith ar y trefniadau teithio presennol.**

- *Ffederasiwn Enlli – (Ysgolion Abersoch, Llanbedrog, Sarn Bach, Pont Y Gof, Crud y Werin, Uwchradd Botwnnog a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron).*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng yr ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

**Gan y byddai'r model yma'n golygu fod disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Abersoch, ni ragwelir y byddai'r model hwn yn cael effaith ar y trefniadau teithio presennol.**

## 3. ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL AR DREFNIADAU TEITHIO

### 3.1. Lleoliad yr ysgol amgen

Mae Ysgol Sarn Bach wedi ei lleoli ym mhentref Sarn Bach, tua 1.4 milltir i lawr y ffordd o bentref Abersoch. Dyma'r ysgol ddaearyddol agosaf at Ysgol Abersoch.

### 3.2. Opsiynau cludiant di-dâl

Yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd, disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd neu uwchradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar hyd y llwybr byrraf.

Y llwybr byrraf sydd ar gael yw'r un nad yw'r Cyngor yn ei ystyried yn arbennig o beryglus, ar ôl asesu'r llwybrau eraill y gellid eu defnyddio, a byddai'r llwybrau hyn yn cael eu hasesu yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

Ysgol Sarn Bach yw'r ysgol dalgylch ar gyfer disgyblion rhwng 8 ac 11 oed ardal Abersoch. Gan fod y llwybr i'r ysgol yn cael ei hystyried fel un peryglus, mae'r awdurdod eisoes yn darparu cludiant di-dâl i rai disgyblion cymwys.

Noder felly fod bws ysgol gynradd eisoes yn rhedeg rhwng Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, a rhagwelir y byddai digon o seddi gweigion ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch.

Yn unol â'r trefniadau presennol, mae'r disgyblion yn teithio i'r ysgol ar fws gwasanaeth ac yn teithio adref ar fws ysgol bwrpasol. Gweler isod amserlen bws presennol Ysgol Sarn Bach:

**ABERSOCH - YSGOL SARN BACH** **320**

**Clynnog & Trefor - 01286 660 208**
**BWS YSGOL DYNODEDIG / DEDICATIED SCHOOL BUS**

| | |
|---|---|
| Abersoch | 0843 |
| **Ysgol Sarn Bach** | 0850 |

| | |
|---|---|
| **Ysgol Sarn Bach** | 1535 |
| Abersoch | 1540 |

Pe byddai holl ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch yn dewis manteisio ar y cludiant di-dâl, rhagwelir y byddai angen addasu'r trefniadau presennol i gael bws ysgol benodol. Mae'r amcan gostau ychwanegol fyddai'n deillio o'r newid hwn wedi ei nodi isod.

## 3.3. Effaith ariannol

Mae crynodeb isod o'r effaith ariannol ar drefniadau teithio:

| | Yr effaith debygol ar drefniadau teithio i ddysgwyr | Yr effaith debygol ariannol blynyddol ar drefniadau teithio i'r Awdurdod |
|---|---|---|
| Gwneud dim | Dim newid | - |
| Ymestyn ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed | Dim newid | - |
| Ffederaleiddio yn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill | Dim newid | - |
| Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach | Ymgynnull mewn man cytunedig ar gyfer dal y bws. | **Darparu cludiant i'r 8 disgybl (Derbyn i Bl.3) presennol:** £0<br>Dim costau ychwanegol – seddi gweigion eisoes ar gael ar fws Ysgol Sarn Bach. |
| | | **Darparu cludiant i holl ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch (26 disgybl):** <u>£14,000</u><br>Byddai angen addasu trefniadau cludiant presennol Ysgol Sarn Bach - gall olygu fod angen bws penodol ar gyfer Ysgol Sarn Bach (bore a phrynhawn). |
| Ysgol Aml-Safle | Dim newid | - |
| Ffederasiwn Ysgol Abersoch, Ysgol Sarn Bach, Ysgol Llanbedrog a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron | Dim newid | - |
| *Ffederasiwn Enlli – (Ysgolion Abersoch, Llanbedrog, Sarn Bach, Pont Y Gof, Crud y Werin, Uwchradd Botwnnog a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron).* | Dim newid | - |

Pe gweithredir y cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach, amcangyfrif:

- Na fyddai unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm a darparu cludiant ar gyfer 8 disgybl presennol (Derbyn-Bl.3) Ysgol Abersoch yn ogystal â'r disgyblion o ddalgylch Abersoch sydd eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. Mae bws eisoes yn cludo disgyblion o Abersoch i Ysgol Sarn Bach, a deallwn y byddai lle i ddisgyblion presennol Ysgol Abersoch ar y bws hwnnw. Gellir dadlau y byddai gweithredu'r cynnig yn gwneud defnydd mwy cost effeithiol o'r trefniadau cludiant sydd eisoes yn bodoli ar gyfer cludo disgyblion i Ysgol Sarn Bach.
- Byddai costau ychwanegol cludiant oddeutu £14,000 y flwyddyn pe byddai holl ddisgyblion dalgylch presennol Ysgol Abersoch yn dewis mynychu Ysgol Sarn Bach yn y dyfodol.


## 4. CASGLIADAU

I grynhoi, rhagwelir na fyddai'r un o'r opsiynau i Ffederaleiddio nac yr opsiwn Ysgol Aml-Safle yn effeithio ar drefniadau teithio a chludiant presennol gan y byddai'r disgyblion yn parhau i dderbyn eu haddysg yn Ysgol Abersoch.

Gyda'r opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-11 oed, ni ragwelir effaith ar drefniadau teithio a chludiant disgyblion presennol yr ysgol. Fodd bynnag, gan gofio mai Ysgol Sarn Bach yw'r ysgol dalgylch presennol ar gyfer disgyblion 8-11 oed ardal Abersoch, byddai'n rhaid ystyried ymhellach yr effaith allai'r cynnig ei gael ar drefniadau cludiant disgyblion 8-11 oed ardal Abersoch.

Pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach, rhagwelir y byddai'r dysgwyr yn dal bws ysgol bresennol Ysgol Sarn Bach - ni fyddai hyn yn arwain at gost ychwanegol i'r awdurdod.

Pe byddai holl ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch angen cludiant i Ysgol Sarn Bach, rhagwelir y byddai angen addasu trefniadau cludiant presennol Ysgol Sarn Bach trwy drefnu bws mwy. Amcangyfrif y byddai hyn yn arwain at gostau ychwanegol o £14,000 y flwyddyn.




# Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned - Ysgol Abersoch

- Mai 2021

## Cynnwys

1. CYFLWYNIAD

2. OPSIYNAU

3. CRYNODEB O'R DALGYLCH

4. YSGOLION Y DALGYLCH

5. ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL AR Y GYMUNED

6. CASGLIADAU

## 1. CYFLWYNIAD

Fel rhan o'r broses statudol, wrth ddatblygu cynnig/cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgol/ysgolion, mae rhaid i'r Awdurdod gynnal asesiad o effaith debygol ar y gymuned, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae'r asesiad hwn yn deillio o ganllawiau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu ysgolion, yn cynnwys ystyriaethau ynglŷn ag anghenion unigryw ardaloedd gwledig. Fe nodir yn y Cod:

*"Mewn rhai ardaloedd, efallai mai ysgol fydd y prif ganolbwynt ar gyfer gweithgarwch cymunedol hefyd, a gallai ei chau arwain at oblygiadau y tu hwnt i ddarparu addysg. Gall hyn fod yn nodwedd benodol mewn ardaloedd gwledig os defnyddir adeiladau ysgolion fel man i ddarparu gwasanaethau i'r gymuned leol."*

*"Dylai'r achos a gaiff ei baratoi gan y rhai sy'n cyflwyno'r cynigion ddangos bod effaith cau'r ysgol ar y gymuned wedi'i hasesu drwy lunio Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, a dangos sut y gellid cynnal unrhyw gyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol ar hyn o bryd."*

Ffynhonnell: Cod Trefniadaeth Ysgolion 011 /2018

### 1.1 Cefndir

Mae Ysgol Abersoch wedi ei lleoli yng nghanol pentref Abersoch ger Pwllheli, ac yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 8 oed. Trosglwydda'r disgyblion i Ysgol Sarn Bach ar ôl blwyddyn 3 er mwyn cwblhau eu haddysg gynradd.

Mae gan Ysgol Abersoch gapasiti o 42 (meithrin i flwyddyn 3), ac ym mis Medi 2020, roedd ganddi 8 disgybl llawn amser, ac 2 disgybl rhan amser.

Yn eu cyfarfod ar 17 Medi 2019, bu i'r Cabinet gefnogi argymhelliad i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol Ysgol Abersoch er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol. Daeth y penderfyniad yn sgil pryderon diweddar ynglŷn â lleihad yn niferoedd disgyblion yr ysgol.

Rhwng Hydref 2019 ac Ionawr 2020, cynhaliwyd 3 cyfarfod lleol gyda rhan-ddeiliaid Ysgol Abersoch ymhle cynigiwyd a thrafodwyd nifer o opsiynau. Yn dilyn gwerthuso'r opsiynau hynny, mireiniwyd y rhestr i 3 opsiwn i'w hystyried ymhellach, yn ogystal â'r model Gwneud dim.

Yn ei gyfarfod ar 15 Medi 2020, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd benderfynu ymgymryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach, ar 1 Medi 2021. Cadarnhawyd y penderfyniad gan y Cabinet yn eu cyfarfod ar 3 Tachwedd 2020, yn dilyn i'r penderfyniad gwreiddiol gael ei alw mewn a'i gyfeirio'n ôl i'r Cabinet gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn ei gyfarfod ar 8 Hydref 2020.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 12 Ionawr a 23 Chwefror 2021, a derbyniwyd 154 ymateb i'r ymgynghoriad.

## 2. YR OPSIYNAU

Cynigiwyd a thrafodwyd nifer o opsiynau yn ystod y cyfarfodydd lleol. Yn dilyn cynnal gwerthusiad o'r opsiynau hyn yn erbyn ffactorau'r Strategaeth, mireiniwyd y rhestr i 3 opsiwn i'w hystyried ymhellach, yn ogystal â'r model Gwneud dim.

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng ysgol/ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynyddu ar gyfleoedd y disgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

Yn yr achos yma, am resymau daearyddol, ystyriwyd Ysgol Sarn Bach, ac Ysgol Llanbedrog fel opsiynau rhesymol ar gyfer y trefniant cydweithiol. Ni ystyriwyd Ysgol Foel Gron gan nad yw hi'n bosib ffederaleiddio ysgolion sydd â statws elusennol, gyda rhai sydd â statws Cymunedol.

- *Ymestyn ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed*

Ar hyn o bryd, mae ystod oedran Ysgol Abersoch yn golygu fod darpariaeth addysg yr ysgol yn dod i ben ar ddiwedd blwyddyn 3. Byddai ymestyn ystod yr oedran i 3-11 yn golygu fod yr ysgol yn gallu parhau i addysgu disgyblion hyd ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, sef diwedd blwyddyn 6. Byddai hyn yn gyson gydag ystod oedran y mwyafrif o ysgolion cynradd y sir.

- *Cau Ysgol Abersoch a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol gyfagos*

Golygai'r opsiwn yma y byddai Ysgol Abersoch yn cau, ac y byddai disgyblion presennol yn cael cynnig lle yn Ysgol Sarn Bach (yr ysgol amgen).

**Opsiynau a ychwanegwyd yn dilyn yr ymgynghoriad statudol:**

- *Ysgol Aml-Safle*

Yr hyn a olygir wrth Ysgol Aml-Safle yw y bydd un ysgol yn cael ei sefydlu ond ar ddwy neu dair safle. Yn statudol bydd gan yr ysgol un endid cyfreithiol, a bydd gan yr ysgol un Pennaeth, gyda rheolwr/wyr ar safleoedd gwahanol. Bydd gan yr ysgol un gyllideb ac un corff llywodraethol, a bydd yr holl safleoedd y derbyn arolygiadau Estyn yr un pryd – fel un ysgol.

Pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu yna byddai dalgylchoedd yr ysgolion presennol yn cael eu haddasu. Gweithredir Polisi Cludiant a Pholisi Mynediad yr Awdurdod fel yr arfer. Felly byddai unrhyw gais mynediad i'r Ysgol Aml-safle i'w ystyried fel cais i'r ysgol yn gyflawn. Byddai rheolaeth o ran mynediad i'r safleoedd gwahanol yn dod yn rhan o bolisïau'r ysgol.

- *Ffederaleiddio gydag Ysgol Sarn Bach a Llanbedrog, a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron.*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng yr ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

- *Ffederasiwn Enlli – (Ysgolion Abersoch, Llanbedrog, Sarn Bach, Pont Y Gof, Crud y Werin, Uwchradd Botwnnog a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron).*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng yr ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

## 3. CRYNODEB O'R DALGYLCH

### 3.1 Yr Ardal

Pentref ym mhenrhyn Llŷn yng Ngwynedd yw Abersoch, gyda thua 800 o drigolion. Mae wedi ei leoli 11 km (7 milltir) o dref Pwllheli a 43 km (27 milltir) o Gaernarfon.

Yn ôl cyfrifiad 2011, mae 783 o bobl yn byw yn ward Abersoch.

### 3.2 Yr Economi

Mae 75.6% o bobl rhwng 16 a 74 mlwydd oed o fewn ward Abersoch yn weithgar yn economaidd, a 3.7% o'r rhain yn ddi-waith. Mae 24.4% o bobl yn yr un grŵp oedran yn anweithgar yn economaidd gyda 3.6% o'r rhain yn sâl neu'n anabl am gyfnod hir.

Mae'r math o ddiwydiant y mae'r boblogaeth yn weithgar ynddo yn amrywiol yn yr ardal, gyda'r gyfradd uchaf (23.7%) yn gweithio yn y maes Manwerthu a Chyfanwerthu.

Yn ôl data 'Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014)' mae cyfradd cyflogaeth ward Abersoch o gymharu â wardiau eraill yng Nghymru yn rhoi ranc o 1404 allan o 1909 o wardiau. Nid yw ward Abersoch felly o fewn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae nifer o fusnesau yn weithredol yn y pentref, gan gynnwys, amrywiaeth o siopau, bwytai, caffis, tafarndai, llety hunanarlwyo, atyniadau twristaidd a garej.

### 3.3 Amddifadedd

Nid yw ward Abersoch (sydd yn ardal ehangach nac arwynebedd daearyddol dalgylch yr ysgol) o fewn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (ranc o 1417 allan o 1909 o wardiau).

Mae nifer o feysydd yn llunio'r mynegai cyffredinol yma, gan gynnwys incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad i wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai.

Nodir fod ward Abersoch o fewn y 40% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'Tai'. Dangosyddion y maes hwn yw'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi gorlawn (defnydd ystafelloedd gwely), a'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi heb wres canolog.

Yn ogystal, mae ward Abersoch o fewn y 40% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'mynediad i wasanaethau', h.y. amddifadedd am nad yw pobl yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer byw o ddydd i ddydd. Mae'r dangosyddion yn cynnwys cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i nifer o wasanaethau megis siopau bwyd, meddygfa, ysgolion cynradd ac uwchradd, swyddfa bost, llyfrgell gyhoeddus, fferyllfa, canolfan hamdden ac amser teithio preifat i orsaf betrol.

Mae crynodeb isod o sut mae ardal Abersoch wedi ei leoli yng nghyd-destun ardaloedd eraill yng Nghymru yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014):

| **Maes** | **Ranc yng Nghymru, allan o 1909 o ardaloedd. (1 = mwyaf difreintiedig a 1909 = lleiaf difreintiedig)** | **Mwyaf difreintiedig % yng Nghymru** |
|---|---|---|
| Cyflogaeth | 1404 | |
| Incwm | 1327 | |
| Iechyd | 1312 | |

| | | |
|---|---|---|
| Addysg | 1472 | |
| Tai | 577 | O fewn y 40-50% mwyaf difreintiedig |
| Amgylchedd ffisegol | 1725 | |
| Mynediad i wasanaethau | 593 | O fewn y 40-50% mwyaf difreintiedig |
| Diogelwch cymunedol | 821 | O fewn 50% mwyaf difreintiedig |

### 3.4 Y Gymuned

Mae nifer o weithgareddau yn cael eu cynnal yn Abersoch, gan gynnwys;

- Gŵyl Abersoch
- Cymraeg i Oedolion
- Diwrnod Shwmae / Su'mae
- Cylch Ti a Fi a Chylch Meithrin
- Gweithgareddau glanhau traethau
- Prosiect Hunaniaeth
- Merched y Wawr

Yn ogystal, mae nifer o gyfleusterau yn y pentref, gan gynnwys neuadd y pentref, amrywiaeth o siopau, fferyllfa, banc symudol, swyddfa bost, garej, caffis, tafarndai, llyfrgell symudol, atyniadau twristaidd, trafnidiaeth gyhoeddus a chae chwarae plant.

## 4. YSGOLION Y DALGYLCH

### 4.1 Cyd-destun yr ysgolion yn ôl Adroddiadau Arolygon Estyn

Fel rhan o adroddiadau Estyn bydd awduron yr adroddiadau, sef yr arolygwyr, yn gosod yr ysgolion o fewn cyd-destun ac yn manylu ar eu cysylltiadau cymunedol. Dyma'r cyd-destun a roddwyd i Ysgol Abersoch gan arolygwyr Estyn.

**Ysgol Abersoch**

*"Mae Ysgol Abersoch ym mhentref Abersoch ger Pwllheli, yn awdurdod lleol Gwynedd, ac mae'n gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos"*

Ffynhonnell: Adroddiad Estyn, Mehefin 2017

### 4.2 Gwybodaeth ystadegol yr ysgolion

Dengys y tabl isod niferoedd Ysgol Abersoch (M-Bl3), a'r ysgolion cyfagos eraill, o Flwyddyn Meithrin i Flwyddyn 6. Gwelir yn ogystal yn y tabl hwn beth yw capasiti'r ysgolion, a'r nifer o lefydd gweigion. Mae pob un o'r ysgolion hyn yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

| Ysgol | Capasiti Llawn (M – Bl6) | Nifer ar y gofrestr Medi 2020 (M – Bl6) | Nifer o Lefydd Gwag Medi 2020 (M – Bl6) | Categori Cyfreithiol |
|---|---|---|---|---|
| **Abersoch (*M-Bl.3)** | 42 | 10 | 32 | Ysgol Gymunedol (Babanod) |
| **Sarn Bach** | 73 | 48 | 25 | Ysgol Gymunedol |
| **Llanbedrog** | 83 | 102 | 0 | Ysgol Gymunedol |
| **Foel Gron** | 61 | 43 | 18 | CWR – Eglwys yng Nghymru |

***Ffynhonnell: Medi 2020***

## 4.3 Gwybodaeth lleoliad annedd a dewis ysgolion disgyblion

Mae gan bob ysgol ddalgylch penodol y mae'n gwasanaethu ac sydd yn bwysig o ran polisi mynediad a chludiant y Cyngor. Nid oes rhaid i ddisgyblion fynychu eu hysgol dalgylch, mae'r dewis i fyny i rieni (yn unol â'r polisi mynediad).

O gymharu â dalgylchoedd eraill yr ardal, mae nifer o ddisgyblion sy'n mynychu ysgol all-dalgylch yn uchel. Dengys data diweddaraf fod 26 o blant 3-8 oed (data Medi 2020) yn byw yn nalgylch Abersoch; dim ond 5 ohonynt sy'n mynychu'r ysgol. Golyga hyn fod 81% o blant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Abersoch yn mynychu ysgolion all-dalgylch, yn unol â data 2020.

Mae'r tabl isod yn dangos y wybodaeth gyflawn o ran lleoliadau byw disgyblion a'i dewis ysgol.

| | | Byw yn Dalgylch (Medi 2020) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Abersoch* (M-Bl3)** | **Sarn Bach** | **Llanbedrog** | **Foel Gron** | **Arall** | **Cyfanswm Ysgol (M-Bl6)** |
| **Mynychu Ysgol (Medi 2020)** | **Abersoch* (M-Bl3)** | 5 | 1 | - | - | 4 | 10 |
| | **Sarn Bach** | 9 | 28 | - | 2 | 9 | 48 |
| | **Llanbedrog** | 6 | 6 | 58 | 15 | 17 | 102 |
| | **Foel Gron** | 2 | 4 | 4 | 24 | 9 | 43 |
| | **Arall** | 4 | 2 | 2 | 1 | | |
| **Cyfanswm** | | 26 | 41 | 64 | 42 | | |

***Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2020***

## 4.4 Crynodeb o'r amrywiol gyfleusterau sydd yn y cymunedau gwledig (Tachwedd 2020)

Mae'r wybodaeth isod wedi ei gasglu ar ardaloedd yr ysgolion a all gael ei effeithio gan unrhyw un o'r opsiynau.

| | Abersoch | Sarn Bach | Llanbedrog | Foel Gron |
|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Gymuned / Neuadd Bentref** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Capel/Eglwys** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Trafnidiaeth Gyhoeddus** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Siop** | ✓ | | ✓ | ✓ |
| **Caffi/Tafarn** | ✓ | | ✓ | |
| **Swyddfa Bost** | ✓ | | ✓ | ✔ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Fferyllfa** | ✓ | | ✓ | |
| **Llyfrgell** | | | | |
| **Cae Chwarae Plant** | ✓ | | ✓ | ✓ |
| **Banc** | | | | |
| **Cartref Henoed** | | | ✓ | |
| **Canolfan Hamdden** | | | | |
| **Garej** | ✓ | | ✓ | |
| **Atyniad Twristaidd** | ✓ | | ✓ | |
| **Cylch Ti a Fi + Meithrin** | ✓ | | ✓ | ✓ |

***Ffynhonnell: Holiaduron Penaethiaid Tachwedd 2020*** *(✓ wedi ychwanegu mewn ymateb i sylwadau'r ymgynghoari statudol)*

Nodwyd mewn holiadur o'r ardrawiad ar y gymuned fod aelodau'r gymuned yn ymweld ag Ysgol Abersoch yn rheolaidd i gynorthwyo gyda'r profiadau dysgu. Mae aelodau o gymuned pob un o'r ysgolion sydd yn rhan o'r asesiad hwn yn ymweld â'r ysgolion i gynnal gweithgareddau gyda'r disgyblion megis clwb garddio, darllen a ffair iechyd. Yn ogystal, gan nad oes neuadd yn Ysgol Abersoch mae'r ysgol yn gwneud defnydd cyson o'r neuadd gymunedol sydd gyfagos.

### 4.5 Crynodeb o ddefnydd yr ysgolion y tu allan i oriau craidd yr ysgol Tachwedd 2020)

Mae crynodeb o ddefnydd cymunedol neu all-gwricwlaidd o adeiladau'r ysgolion lleol isod:

| | **Abersoch** | **Sarn Bach** | **Llanbedrog** | **Foel Gron** |
|---|---|---|---|---|
| **Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)** | | | | |
| **Aelwyd a/neu adrannau'r Urdd** | ✓ | ✓ | | ✔ |
| **Dramâu** | | | | |
| **Grwpiau Gwirfoddol** | | | | |
| **Bore/Noson Goffi** | | | | ✔ |
| **Arwerthiant Cymunedol** | | | | |
| **Llyfrgell Gymunedol** | | | | |
| **Ymarfer Côr** | | | | |
| **Cymraeg i Oedolion** | | | | |
| **Cyfarfod Cyngor Tref/Gymuned** | | | | |
| **Cylch/Ysgol Feithrin** | ✓ | | ✓ | |
| **Clwb/Gweithgaredd Chwaraeon** | | | ✓ | |
| **Clwb ar ôl Ysgol** | ✓* | | | ✔ |
| **Clwb Diddordeb Lleol** | | | | |

***Ffynhonnell: Holiaduron Penaethiaid Tachwedd 2020***

*(✓ wedi ychwanegu mewn ymateb i sylwadau'r ymgynghoari statudol)*

**Ysgol Abersoch yn cynnig clybiau ar ôl ysgol gan gynnwys clwb garddio, clwb crefft Hunaniaith, Urdd Tudwal.*

## 4.6 Crynodeb o weithgareddau neu grwpiau y mae'r ysgol yn ymwneud yn rheolaidd a nhw:

| | Abersoch | Sarn Bach | Llanbedrog | Foel Gron |
|---|---|---|---|---|
| **Cylchoedd Meithrin a/neu Ti a Fi** | ✓ | ✓ | ✓ | |
| **Eisteddfodau (Lleol/Sirol/Cenedlaethol)** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Adrannau'r Urdd** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Gweithgareddau eraill (chwaraeon, clybiau)** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

***Ffynhonnell: Holiaduron Penaethiaid Tachwedd 2020***
***Testun mewn glas wedi ei ychwanegu yn dilyn yr ymgynghoriad***

## 4.7 Os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol ar ran y gymuned, ble y byddent yn cael eu darparu os caiff ysgol ei chau?

| Ysgol | Ble darparir cyfleusterau pe bai'n cau |
|---|---|
| **Abersoch** | Cynhelir Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi yn adeilad yr ysgol.<br>Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. |

## 4.8 Gwybodaeth am bellter ac amser teithio i ysgolion eraill y dalgylch

Mae'r tabl isod yn nodi pellter ac amser teithio rhwng ysgolion yr ardal. Gwelwn mai Ysgol Sarn Bach yw'r agosaf at Ysgol Abersoch. Mae'r amseroedd teithio isod yn ystyried natur y lonydd a'r effaith y gall hynny ei gael ar amser teithio mewn ardal wledig.

| **Ysgol** | | **Sarn Bach** | **Llanbedrog** | **Foel Gron** |
|---|---|---|---|---|
| **Llanbedrog** | **Milltir** | **4.2** | | |
| | **Munudau** | **10** | | |
| **Foel Gron** | **Milltir** | **3.9** | **1.6** | |
| | **Munudau** | **11** | **4** | |
| **Abersoch** | **Milltir** | **1.4** | **3.3** | **3.2** |
| | **Munudau** | **5** | **7** | **9** |

***Ffynhonnell: Mapiau Google 2020***

## 5. ASESIAD O'R EFFAITH DEBYGOL AR Y GYMUNED

Er mwyn asesu effaith cymunedol y modelau posib, penderfynwyd creu meini prawf yn unol ag argymhellion ystyriaethau asesiad cymunedol y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

**MODEL 1 – Gwneud Dim**

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Dim newid | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Dim newid | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | Dim newid | Niwtral |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Dim newid | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Dim newid | Niwtral |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Dim newid | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Dim newid | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Dim newid | Niwtral |

## MODEL 2 – NEWID YSTOD OEDRAN YSGOL ABERSOCH O 3-8 OED I 3-11 OED

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Dim newid | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Dim newid | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | Dim newid | Niwtral |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Dim newid | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Dim newid | Niwtral |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Dim newid | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Dim newid | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Dim newid | Niwtral |

**MODEL 3 – FFEDERALEIDDIO GYDAG YSGOL GYFAGOS**

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | *Nodir cyfleoedd i Gymuned Abersoch a'r ysgol arall a fyddai'n rhan o'r model ffederal ddod at ei gilydd a rhannu adnoddau a chyfleusterau.* | Positif |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Dim newid o'r sefyllfa bresennol, ond nodir cyfleoedd i gymuned Abersoch a'r ysgol arall a fyddai'n rhan o'r model ffederal i ddod at ei gilydd. | Niwtral |

## MODEL 4 – CAU YSGOL ABERSOCH A'R PLANT I'W HADDYSGU MEWN YSGOL GYFAGOS

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Gan fod yr ysgol amgen tua milltir a hanner o Ysgol Abersoch a chartrefi'r disgyblion, ni fyddant yn debygol o gerdded i'r ysgol.<br><br>Mae posib i ollwng plant yn y maes parcio, boed hynny mewn car neu dacsi / bws mini, ac mae safle bws (gwasanaeth bws cyhoeddus) tu allan i ffiniau'r ysgol. Felly, os yw disgyblion yn llai abl i gerdded neu feicio, ni ragwelir anhawster i gyrraedd yr ysgol. | Negyddol |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Mae bws cyhoeddus (rhif 18) yn rhedeg rhwng pentref Abersoch a'r ysgol amgen. Gall rhai teuluoedd fod yn ddibynnol ar gludiant cyhoeddus i gyrraedd yr ysgol amgen, er hynny, ni ragwelir effaith sylweddol ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan mai 10 disgybl sydd yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd. | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | Lleolir Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle Ysgol Abersoch.<br>Pe byddai'r ysgol yn cau, byddai'n rhaid ystyried y darpariaethau hyn wrth drafod ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol. | Niwtral |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Ni ragwelir effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Gan fod nifer uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill eisoes, a bod niferoedd disgyblion presennol Ysgol Abersoch yn isel, ni ragwelir y byddai teuluoedd a phlant ifanc yn gadael y gymuned. | Niwtral |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Gan fod nifer uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill eisoes, ni ellir ddod i gasgliad y byddai cau yr ysgol yn cael effaith ar wasanaethau eraill. | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Eto, gan fod y rhan fwyaf o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill, ni ragwelir y byddai cau'r ysgol yn cael effaith ar economi ehangach y gymuned. | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Byddai'r ysgol leol yn bellach o gartrefi o fewn dalgylch presennol Ysgol Abersoch, ac o safbwynt amddifadedd – golyga fod un o ddangosyddion 'mynediad i wasanaethau' yn pellhau oddi wrth drigolion y pentref.<br><br>*Yn ogystal, derbyniwyd nifer o sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad statudol yn ymwneud â'r gymuned oedd yn pwysleisio pwysigrwydd yr ysgol i'r pentref, y gymuned, trigolion a busnesau lleol, ac y byddai'r cau'r ysgol yn cael effaith negyddol ar y pentref.*<br><br>*Dyma un enghraifft o sylw a dderbyniwyd yn nodi'r effaith y byddai'r cynnig yn ei gael ar y gymuned:*<br><br>*"Mae'r trigolion a'r busnesau'n ymwybodol o fodolaeth yr ysgol oherwydd yr holl waith a wna'r athrawon a'r disgyblion o'i hybu drwy'r iaith Gymraeg wrth ymweld â nhw'n rheolaidd – mae Ysgol Abersoch yn ysgol yng nghanol bwrlwm ei chymuned. O'i chau, collir deinameg uned y pentref, y bwrlwm a'r ymlyniad cryf sydd gan rieni at sefydliad. Yn sicr, collid un peth allweddol – cysylltiad â'r gymuned ac ymroddiad honno i'r ysgol – pe caeid hi."* | Negyddol |

**YSGOL AML-SAFLE (Ysgol Abersoch, Ysgol Llanbedrog ac Ysgol Sarn Bach)**

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | Nodir cyfleoedd i Gymuned Abersoch a'r ysgolion eraill fyddai'n rhan o'r ysgol aml-safle ddod at ei gilydd a rhannu adnoddau a chyfleusterau. | Positif |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Er fod presenoldeb safle ymhob cymuned, ni fyddai hunaniaeth gymunedol i'r safleoedd hynny. Serch hynny, nodir cyfleoedd i gymuned Abersoch a chymunedau y safleoedd eraill fyddai'n rhan o'r ysgol aml-safle ddod at ei gilydd | Niwtral |

**FFEDERALEIDDIO YSGOLION ABERSOCH, LLANBEDROG, SARN BACH a THREFNIANT CYDWEITHIO HEFO YSGOL FOEL GRON.**

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | Nodir cyfleoedd i Gymuned Abersoch a'r ysgol arall a fyddai'n rhan o'r model ffederal ddod at ei gilydd a rhannu adnoddau a chyfleusterau. | Positif |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Dim newid o'r sefyllfa bresennol, ond nodir cyfleoedd i gymuned Abersoch a'r ysgolion eraill a fyddai'n rhan o'r model ffederal i ddod at ei gilydd. | Niwtral |

**FFEDERASIWN ENLLI**

**YSGOLION ABERSOCH, LLANBEDROG, SARN BACH, PONT Y GOF, CRUD Y WERIN A BOTWNNOG + TREFNIANT CYDWEITHIO HEFO YSGOL FOEL GRON.**

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | Nodir cyfleoedd i Gymuned Abersoch a'r ysgol arall a fyddai'n rhan o'r model ffederal ddod at ei gilydd a rhannu adnoddau a chyfleusterau. | Positif |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Dim newid o'r sefyllfa bresennol | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Dim newid o'r sefyllfa bresennol, ond nodir cyfleoedd i gymuned Abersoch a'r ysgolion eraill a fyddai'n rhan o'r model ffederal i ddod at ei gilydd. | Niwtral |


## 6. CASGLIADAU

Gwelir yn yr asesiad hwn fod yr ysgol yn ymwneud â’i chymuned ac yn defnyddio cyfleusterau'r gymuned, megis y neuadd yn gyson. Mae’r gymuned hefyd yn gwneud defnydd o adeilad yr ysgol, ac yn ei ddefnyddio fel lleoliad ar gyfer y Cylch Meithrin a’r Cylch Ti a Fi.

Dengys o’r wybodaeth a gyflwynwyd na fyddai’r opsiwn i barhau gyda’r sefyllfa bresennol, ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-11 oed, sefydlu Ysgol Aml-safle neu ffederaleiddio gydag ysgol neu ysgolion eraill, yn cael effaith ar y gymuned. Golygai’r opsiynau hyn y byddai presenoldeb ysgol yn parhau yng nghymuned Abersoch gan ymgymryd â’r un gweithgareddau a defnyddio'r un cyfleusterau ac y maent yn bresennol.

Pe byddai’r opsiwn o gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion mewn ysgol gyfagos yn cael ei wireddu, rhagwelir y byddai’n cael peth effaith ar rai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol. O ganlyniad, bydd yn ofynnol fel rhan o’r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Abersoch fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Abersoch yn ogystal.

Dengys yr asesiad hwn y bydd peth effaith negyddol o gau’r ysgol ar y gymuned. I liniaru’r effaith ar y gymuned nodir cyfleon i sicrhau fod cymuned Abersoch yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle’n briodol.




# Adroddiad Asesiad Effaith Ieithyddol

# Ysgol Abersoch

- Mai 2021

## Cynnwys


**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Y Sefyllfa yng Ngwynedd

1.2 Polisi Iaith

1.3 Cefndir Addysgol

**2. PROFFIL IEITHYDDOL DALGYLCH ABERSOCH**

2.1 Cefndir Proffil Iaith Gwynedd

2.2 Wardiau

2.3 Ysgol Abersoch

2.4 Ysgolion Cyfagos

2.5 Ystadegau Siarter Iaith (Haf 2019)

2.6 Gweithgareddau ar ôl ysgol

2.7 Gweithgareddau Cymunedol

2.8 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020

2.9 Tystiolaeth Ychwanegol

**3. EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG**

3.1 Opsiynau

3.2 Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith

**4. CASGLIAD**

# 1. CYFLWYNIAD

Mae cefnogi a datblygu gallu plant Gwynedd i ddysgu a defnyddio eu sgiliau iaith yn allweddol bwysig i strategaethau addysg y Sir.

## 1.1 Y Sefyllfa yng Ngwynedd

Mae ffigyrau yng Nghyfrifiad 2011 yn nodi fod 65,900 (56%) o bobl dros dair oed yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg. Mae Cyfrifiad 2011 hefyd yn nodi bod 65% yn siarad Cymraeg sydd yn ostyngiad ers y cyfrifiad blaenorol, pan oedd y ffigwr yn 69%.

Yng Ngwynedd, fel mewn sawl Awdurdod Lleol eraill yng Nghymru, mae cryn wahaniaeth yng nghanran y siaradwyr Cymraeg o fewn gwahanol wardiau. Ar un eithaf, mewn wardiau megis Aberdyfi, Tywyn a ward Menai ym Mangor, mae rhwng 18% a 38% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, tra bod cymaint â 88% yn siarad Cymraeg yn yr ardaloedd mwyaf Cymreig e.e. Llanrug.

## 1.2 Polisi Iaith

**<u>Cynradd</u>**

Yr un yw nod y Polisi Iaith ar draws holl ysgolion cynradd y Sir, sef datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyfedr yn y ddwy iaith erbyn diwedd CA2. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen. Yn CA2, parheir i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

**<u>Uwchradd</u>**

Yn yr uwchradd, disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd y lefel angenrheidiol, sef lefel 3+ ar ddiwedd y CA2 ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Y gobaith yw y gall y disgyblion hyn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd blwyddyn 11.

Mae'r ysgolion uwchradd yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau fod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw'r Sir yn diffinio ysgolion uwchradd yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un disgwyliad mewn perthynas â'r Polisi Iaith, sef rhoi cyfle i holl ddisgyblion y Sir fod yn hyfedr ddwyieithog.

## 1.3 Miliwn o siaradwyr erbyn 2050

"Mae'r Gymraeg yn un o drysorau Cymru. Mae'n rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl. Ein huchelgais ni fel Llywodraeth Cymru yw gweld miliwn o bobl yn gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg erbyn 2050."

"Mae ymateb i'r her o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn galw am newidiadau pellgyrhaeddol... Mae angen gwthio'r ffiniau a chymryd camau uchelgeisiol fel bod mwy o bobl yn dysgu a defnyddio'r Gymraeg. Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar y sylfeini sydd eisoes yn eu lle ac yn ein symud ymlaen i'r cam nesaf yn ein taith ieithyddol. Rydym wedi nodi tair thema strategol ar gyfer gwireddu'r weledigaeth hon. 1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg 2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg 3. Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun"

" Mae hon yn strategaeth i Gymru gyfan, ac rydym am i bob rhan o'r wlad rannu'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Mae yna botensial am dwf yn y niferoedd o siaradwyr Cymraeg, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny o Gymru sydd â dwysedd poblogaeth uchel ond canrannau is o siaradwyr Cymraeg. Ond

mae angen sicrhau hefyd hyfywedd cymunedau Cymraeg fel lleoedd sy'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd. Ein gweledigaeth ym mhob rhan o'r wlad yw creu amodau ffafriol sy'n cefnogi'r broses o gaffael yr iaith a'r arfer o ddefnyddio sgiliau Cymraeg. Rydym am weld cynnydd yn yr arfer o drosglwyddo'r iaith o fewn y teulu, yr arfer o gyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i bob plentyn, system addysg sy'n rhoi sgiliau Cymraeg i bawb, a mwy o werthfawrogiad o sgiliau iaith yn y gweithle. Ar yr un pryd, rydym wedi ymrwymo i gefnogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, yn y gweithle, ac wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus."

"Mae'r nod o sicrhau miliwn o siaradwyr yn golygu datblygu ymhellach y dulliau sydd fwyaf tebygol o arwain at y cynnydd sydd ei angen. Mae yna ddau brif ddull: trosglwyddo'r Gymraeg o un genhedlaeth i'r llall, a datblygu a chynnal sgiliau Cymraeg drwy addysg a hyfforddiant."

## 1.4 Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23

*"Mae Safon 145 o Safonau'r Gymraeg, a osodwyd ar y Gyngor Gwynedd yn unol ag Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod disgwyliad ar y Cyngor i lunio strategaeth 5 mlynedd fydd yn dangos sut yr ydym yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg ar draws y sir. Mae gan Gyngor Gwynedd hanes hir o hybu a gwarchod yr iaith fel cyfrwng cyfathrebu naturiol ei wasanaethau. Rhoir lle amlwg i'r Gymraeg yng nghynlluniau strategol y Cyngor, ac mae Polisi Iaith y Cyngor hefyd yn nodi ein hymrwymiad drwy ddatgan y rhoir cyfrifoldeb ar holl Swyddogion ac Aelodau'r Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o'u gwaith.*

*<u>3.2 Maes Blaenoriaeth 2 – Iaith Dysgu</u>*

*Y weledigaeth:*

- *Ysgolion sydd yn rhoi bri a gwerth i'r Gymraeg ac yn annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu a chymdeithasu drwy barhau i weithredu'r Siarter Iaith a Strategaeth Iaith Uwchradd.*

- *Cynnydd yn nifer y bobl ifanc sydd yn dewis astudio ac yn derbyn cymwysterau neu achrediadau cydnabyddedig drwy gyfrwng y Gymraeg.*

- *Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd ac i addysg ôl-orfodol.*

- *Mwy o gyfleoedd dysgu estynedig yn cael eu cynnig i bobl ifanc - ar ffurf profiad gwaith a phrentisiaethau gyda chyflogwyr sydd yn rhoi statws amlwg i'r Gymraeg - fydd yn datblygu dealltwriaeth pobl ifanc o'r angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle"*

## 1.5 Cefndir Addysgol

Mabwysiadwyd strategaeth "Addysg Gynradd o Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd" gan y Cyngor yn Ebrill 2009. Datblygwyd a chefnogwyd uwch strategaeth "Rhaglen Strategol - Tuag at 2025" gan y Cyngor yn Hydref 2010. Darparwyd y ddogfen fel sylfaen strategol i osod cyfeiriad i ddatblygiadau ym maes addysg a hyfforddiant yng Ngwynedd am y 15 mlynedd nesaf. Cyflwynwyd y rhaglen yng nghyd-destun y polisïau a chynlluniau sydd ar y gweill, yn lleol a chenedlaethol i drawsnewid gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Cyhoeddwyd "Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2017-2020" yn Rhagfyr 2017 sydd yn gosod gweledigaeth, ymrwymiad a chyfeiriad ar gyfer sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol.

## 2. PROFFIL IAITH DALGYLCH ABERSOCH

### 2.1 Cefndir Proffil Iaith Gwynedd

Mae bron i dri chwarter poblogaeth y Sir wedi eu geni yng Nghymru (66.8%). Mae 65.4% o'r boblogaeth sydd dros dair oed yn siaradwyr Cymraeg – sylweddol uwch na'r ffigwr trwy Gymru gyfan o 19%. Yn gyffredinol, ceir cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg a'r rheini a gaiff eu geni yng Nghymru tuag at y gorllewin a symud yn fewndirol o'r ardaloedd mwy poblog ar yr arfordir. Yng Ngwynedd, mae'r gallu i siarad Cymraeg uchaf yn ward Llanrug (mae 87.8% yn siarad Cymraeg), ac ar ei isaf yn ardal Menai o Fangor (18.6%).

### 2.2 Wardiau

#### 2.2.1 Wardiau Abersoch, Llanengan a Llanbedrog

Mae dalgylch presennol Ysgol Abersoch, o fewn ward Abersoch gyda dalgylch Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Foel Gron o fewn ward Llanengan a dalgylch Ysgol Llanbedrog o fewn ward Llanbedrog (Swyddfa Ystadegol Gwladol). Mae proffil ieithyddol wardiau'r ysgolion hyn wedi ei grynhoi yn y tabl isod:

| | Abersoch | Llanengan | Llanbedrog | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| Hunaniaeth Gymreig yn unig | 266 (34%) | 670 (55.6%) | 453 (45.2%) | 71,931 (59.0%) | 1,761 673 (57.5%) |
| Dim hunaniaeth Gymreig | 473 (60.4%) | 480 (39.8) | 504 (50.3%) | 42,566 (34.9%) | 1,045,775 (34.1%) |
| Aelwydydd ble mae gan o leiaf un person iaith gyntaf arall i Gymraeg neu Saesneg | 4 (0.5%) | 6 (0.5%) | 93 (9.5%) | 1,463 (1.2%) | 42,581 (1.4%) |
| Poblogaeth 3+ mlwydd oed | 773 (98.7%) | 1164 (96.5%) | 974 (97.2%) | 117,789 (96.6%) | 2,955,841 (96.5%) |
| Gallu siarad Cymraeg | 336 (43.5%) | 738 (63.4%) | 526 (54%) | 77,000 (65.4%) | 562,016 (19%) |
| Dim sgiliau Cymraeg | 370 (47.9%) | 360 (30.9%) | 400 (41.1%) | 31,177 (26.5%) | 2,167,987 (73.3%) |
| Gallu deall Cymraeg ar lafar yn unig | 60 (7.8%) | 58 (5%) | 44 (4.5%) | 8,125 (6.9%) | 157,792 (5.3%) |
| Gallu siarad Cymraeg ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg | 39 (5%) | 50 (4.3%) | 43 (4.4%) | 6,838 (5.8%) | 80,429 (2.7%) |
| Gallu siarad a darllen Cymraeg ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg | 21 (2.7%) | 22 (1.9%) | 22 (2.3%) | 3,947 (3.4%) | 45,524 (1.5%) |
| Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg | 275 (35.6%) | 666 (57.2%) | 460 (47.2%) | 65,921 (56%) | 430,717 (14.6%) |
| Cyfuniad arall o sgiliau Cymraeg | 8 (1%) | 8 (0.7%) | 5 (0.5%) | 1,781 (1.5%) | 73,392 (2.5%) |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegol Gwladol*

## 2.3 Ysgol Abersoch

Mae'r wybodaeth a geir yn y tabl isod yn amlinellu cefndir ieithyddol disgyblion Ysgol Abersoch.

Dengys y tabl nad oes yr un o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref. (PLASC 2020).

| Ysgol | Siarad Cymraeg yn rhugl gartref | Dim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl | Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl | Dim yn siarad Cymraeg gartref a dim yn rhugl | Dim yn siarad Cymraeg o gwbl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Abersoch** | 0 | 0 | 3 (33%) | 3 (33%) | 3 (33%) | **9** |

Ffynhonnell: Data gan Benaethiaid PLASC Ionawr 2020

## 2.4 Ysgolion cyfagos

Mae data ieithyddol ar gyfer Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Llanbedrog i'w gweld isod:

| Ysgol | Siarad Cymraeg yn rhugl gartref | Dim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl | Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl | Dim yn siarad Cymraeg gartref a dim yn rhugl | Dim yn siarad Cymraeg o gwbl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sarn Bach** | 25 (53%) | 4 (9%) | 2 (4%) | 11 (23%) | 5 (11%) | **47** |
| **Llanbedrog** | 32 (35%) | 26 (29%) | 3 (3%) | 21 (23%) | 9 (10%) | **91** |
| **Foel Gron** | 18 (42%) | 4 (9%) | 2 (5%) | 11 (26%) | 8 (19%) | **43** |

Ffynhonnell: Data gan Benaethiaid PLASC Ionawr 2020

## 2.5 Ystadegau Siarter Iaith (Haf 2019)

Fel rhan o weithredu'r Siarter Iaith, mae holl ddisgyblion ysgolion cynradd Gwynedd yn cwblhau holiadur gwe iaith am eu defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol ddwywaith y flwyddyn. Dyma ystadegau Haf 2019 am y defnydd mae'r disgyblion yn ei wneud o'r Gymraeg:

| **1. % y plant sydd yn siarad Cymraeg efo'r athrawon** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Bob Amser** | **Yn aml** | **Weithiau** | **Ychydig iawn** | **Byth** |
| Abersoch | 67% | 0% | 0% | 33% | 0% |
| Sarn Bach | 75% | 19% | 6% | 0% | 0% |
| Llanbedrog | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Foel Gron | 93% | 7% | 0% | 0% | 0% |

| **2. % y plant sydd yn siarad Cymraeg efo'r cymhorthyddion a holl staff yr ysgol** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Bob Amser** | **Yn aml** | **Weithiau** | **Ychydig iawn** | **Byth** |
| Abersoch | 50% | 0% | 17% | 33% | 0% |
| Sarn Bach | 75% | 19% | 6% | 0% | 0% |
| Llanbedrog | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Foel Gron | 93% | 7% | 0% | 0% | 0% |

| 3. % y plant sydd yn siarad Cymraeg efo plant yn y dosbarth, ar y coridor ac yn y neuadd ginio | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Bob Amser** | **Yn aml** | **Weithiau** | **Ychydig iawn** | **Byth** |
| Abersoch | 17% | 0% | 67% | 17% | 0% |
| Sarn Bach | 25% | 56% | 19% | 0% | 0% |
| Llanbedrog | 89% | 11% | 0% | 0% | 0% |
| Foel Gron | 93% | 7% | 0% | 0% | 0% |

| 4. % y plant sydd yn siarad Cymraeg ar iard/fuarth yr ysgol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Bob Amser** | **Yn aml** | **Weithiau** | **Ychydig iawn** | **Byth** |
| Abersoch | 0% | 17% | 50% | 33% | 0% |
| Sarn Bach | 25% | 63% | 13% | 0% | 0% |
| Llanbedrog | 33% | 44% | 22% | 0% | 0% |
| Foel Gron | 79% | 21% | 0% | 0% | 0% |

| 5. % y plant sydd yn hyderus wrth siarad Cymraeg | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Bob Amser** | **Yn aml** | **Weithiau** | **Ychydig iawn** | **Byth** |
| Abersoch | 33% | 33% | 17% | 17% | 0% |
| Sarn Bach | 44% | 13% | 31% | 13% | 0% |
| Llanbedrog | 100% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Foel Gron | 71% | 21% | 7% | 0% | 0% |

| 6. % y plant sydd yn meddwl ei bod hi'n bwysig siarad Cymraeg | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Bob Amser** | **Yn aml** | **Weithiau** | **Ychydig iawn** | **Byth** |
| Abersoch | 67% | 0% | 33% | 0% | 0% |
| Sarn Bach | 56% | 38% | 6% | 0% | 0% |
| Llanbedrog | 89% | 11% | 0% | 0% | 0% |
| Foel Gron | 79% | 21% | 0% | 0% | 0% |

*Ffynhonnell: Data GwE Iaith Haf 2019*

Gwelwn yn ôl y data uchod fod defnydd o'r Gymraeg yn amrywio yn ysgolion yr ardal. Fe ymddengys fod plant Abersoch sydd yn y cyfnod sylfaen yn hyderus wrth siarad Cymraeg ac yn defnyddio'r Gymraeg wrth siarad gyda'r athrawon, cymhorthyddion a staff. O safbwynt Ysgol Sarn Bach, gwelwn fod canran uwch o blant yn siarad Cymraeg efo'r athrawon, cymhorthyddion a staff. Gwelwn hefyd fod canran uwch o blant yn gwneud defnydd anffurfiol o'r Gymraeg - gyda'i gilydd ar y coridor, yn y neuadd ginio ac ar yr iard, yn ogystal â gyda staff yr ysgol yn Ysgol Sarn Bach o'i gymharu ag Ysgol Aberosch. Rhagwelir felly na fyddai trosglwyddo i Ysgol Sarn Bach yn debygol o gael effaith negyddol ar yr iaith ac y byddai'n cynnig mwy o gyfleoedd i blant Abersoch i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gymdeithasu.

Dyma nifer o ymatebion a dderbyniwyd gan ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen ar gyfer cwblhau'r Siarter Iaith:

**Abersoch: 6**
**Sarn Bach: 16**
**Llanbedrog: 9**
**Foel Gron: 14**

## 2.6 Gweithgareddau ar ôl ysgol (Sefyllfa Tachwedd 2020)

Cynhelir gweithgareddau ar ôl ysgol yn adeilad Ysgol Abersoch megis Aelwyd yr Urdd. Mae llawer o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal yn neuadd bentref Abersoch yn ogystal.

Dyma grynodeb o'r hyn mae Ysgol Abersoch a'r ysgolion eraill cyfagos yn eu cynnig ar ôl ysgol:

| | Abersoch | | Sarn Bach | | Llanbedrog | | Foel Gron | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Adeilad yr Ysgol | Neuadd Bentref | Adeilad yr ysgol | Neuadd Bentref | Adeilad yr ysgol | Neuadd Bentref | Adeilad yr ysgol | Neuadd Bentref |
| **Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)** | | | | | | | | |
| **Aelwyd/Adrannau'r Urdd** | ✓ | | ✓ | | | ✓ | ✓ | |
| **Bore/Noson Goffi** | | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | |
| **Cylch/Ysgol Feithrin** | ✓ | | | | | ✓ | | |
| **Clwb/Clwb ar ôl ysgol / Gweithgaredd Chwaraeon** | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ | |

*(✓ wedi ei ychwanegu mewn ymateb i sylwadu'r ymgynghoriad statudol)*

Gwelir yn y tabl uchod fod nifer o ysgolion yr ardal, gan gynnwys Ysgol Abersoch yn cynnig clybiau gyda'r Urdd ar ôl ysgol. Golygai hyn gallai'r disgyblion fanteisio arnynt fel cyfle ychwanegol i ddefnyddio a datblygu'r Gymraeg. O ran darpariaethau tymor byr, deallwn hefyd fod Hunaniaith yn cynnal Clwb Crefft yn wythnosol yn Ysgol Abersoch ar ôl ysgol i blant cynradd yr ardal er mwyn hybu'r defnydd o'r Gymraeg.

## 2.7 Gweithgareddau Cymunedol

Mae neuadd ym mhentref Abersoch, ac mae'r Ysgol yn gwneud defnydd rheolaidd o'r gofod hwn yn ogystal. Deallwn hefyd fod Ysgol Abersoch yn cefnogi gweithgareddau Hunaniaith megis Diwrnod Su'mae i hyrwyddo gwerth y Gymraeg mewn busnes.

## 2.8 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020

Mae'r ddwy ysgol, Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, yn gweithredu amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 Cyngor Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys:

- Gosod sylfaen gadarn yn y Gymraeg yn y Blynyddoedd Cynnar, gan sicrhau bod disgyblion o gefndir Saesneg yn cael y cyfle i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosib.
- Yn y cyfnod sylfaen, adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cyfnod meithrin a derbyn drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses o ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg. Yn ymarferol, golyga hyn y bydd y mwyafrif o'r ysgolion yn cychwyn cyflwyno'r Saesneg fel pwnc yn y tymor olaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen gan roi sylw i ddatblygu sgiliau darllen, siarad ac ysgrifennu yn yr iaith honno. Y Gymraeg fydd iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.
- Yn CA2, parhau i ddatblygu meistrolaeth disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. Asesir cynnydd disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Fe fyddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn cyd-fynd ag amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20.

## 2.9 Tystiolaeth Ychwanegol

**Ysgol Abersoch**

Mae adroddiad Estyn yn 2017 yn dweud:

*“Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a’r addysgu ac fe addysgir Saesneg yn ffurfiol ym Mlwyddyn 3. Daw 39% o’r disgyblion o gartrefi ble siaredir Cymraeg. Mae eu medrau sylfaenol wrth ddechrau’r ysgol yn is na’r disgwyl, gyda’r Gymraeg yn iaith newydd i'r mwyafrif ohonynt.”*

(https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Ysgol%20Gynradd%20Abersoch.pdf)

**Ysgol Sarn Bach**

Mae gwefan yr ysgol yn dweud:

“Ein bwriad a’r gobaith yw i bob plentyn allu a dewis siarad Cymraeg graenus ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol, i ymfalchïo yn iaith, diwylliant a thraddodiadau Cymreig.”

Mae adroddiad Estyn 2017 yn dweud:

*“Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol ac fe gyflwynir Saesneg fel pwnc yng nghyfnod allweddol 2...Tua 47% o’r disgyblion sy’n siarad Cymraeg gartref”*

(https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Ysgol%20Sarn%20Bach%20cydocx.pdf)

**Ysgol Llanbedrog:**

Mae gwefan yr ysgol yn dweud:

“I hybu naws Gymreig yr ysgol, disgwylir mai’r Gymraeg a ddefnyddir i sgwrsio’n anffurfiol yn y dosbarth ac ar y buarth.”

Mae adroddiad Estyn 2014 yn dweud:

*“Mae oddeutu chwarter o’r disgyblion o gartrefi lle y siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf.”*

(https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Adroddiad%20arolygiad%20Ysgol%20Llanbedrog%202014_0.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf)

**Ysgol Foel Gron:**

Mae adroddiad Estyn 2015 yn dweud:

*“Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a’r addysgu. Fe addysgir Saesneg yn ffurfiol yng nghyfnod allweddol 2. Oddeutu 71% o’r disgyblion ddaw o gartrefi ble siaredir Cymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol.”*

(https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-08/Ysgol%2520Foel%2520Gron.pdf)

## 3. EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG

### 3.1 Opsiynau

Cynigiwyd a thrafodwyd nifer o opsiynau yn ystod y cyfarfodydd lleol. Yn dilyn cynnal gwerthusiad o'r opsiynau hyn yn erbyn ffactorau'r Strategaeth, mireiniwyd y rhestr i 3 opsiwn i'w hystyried ymhellach, yn ychwanegol i'r opsiwn Gwneud Dim.

- *Gwneud dim* – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.

Rhagwelir y byddai'r opsiwn yma'n niwtral o ran ei effaith ar yr iaith Gymraeg, gan y byddai'n golygu parhau efo'r sefyllfa bresennol.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng ysgol/ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynyddu cyfleoedd y disgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

Yn yr achos yma, am resymau daearyddol, ystyriwyd Ysgol Sarn Bach, ac Ysgol Llanbedrog fel opsiynau rhesymol ar gyfer y trefniant cydweithio. Ni ystyriwyd Ysgol Foel Gron gan nad yw hi'n bosib ffederaleiddio ysgolion sydd â statws elusennol, gyda rhai sydd â statws Cymunedol.

Rhagwelir y byddai'r opsiwn yma'n niwtral o ran ei effaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddai Ysgol Abersoch yn parhau. Byddai'r opsiwn hefyd yn cynnig cyfle i gyd-gynllunio'r cwricwlwm a chydrannu adnoddau ar draws ysgolion y ffederasiwn.

- *Ymestyn ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed*

Ar hyn o bryd, mae ystod oedran Ysgol Abersoch yn golygu fod darpariaeth addysg yr ysgol yn dod i ben ar ddiwedd blwyddyn 3. Byddai ymestyn ystod yr oedran i 3-11 yn golygu fod yr ysgol yn parhau i addysgu disgyblion hyd ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, sef diwedd blwyddyn 6. Byddai hyn yn gyson gydag ystod oedran y mwyafrif o ysgolion cynradd y sir.

Rhagwelir y byddai'r opsiwn yma'n niwtral o ran ei effaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddai Ysgol Abersoch yn parhau. Ac eithrio newid posib i'r strwythur staffio, rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth yn yr ysgol yn parhau yn yr un modd.

- *Cau Ysgol Abersoch a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol gyfagos*

Golygai'r opsiwn yma y byddai Ysgol Abersoch yn cau, ac y byddai disgyblion presennol yn cael cynnig lle yn Ysgol Sarn Bach (yr ysgol amgen).

**Opsiynau a ychwanegwyd yn dilyn yr ymgynghoriad statudol:**

- *Ysgol Aml-Safle*

Yr hyn a olygir wrth Ysgol Aml-Safle yw y bydd un ysgol yn cael ei sefydlu ond ar ddwy neu dair safle. Yn statudol bydd gan yr ysgol un endid cyfreithiol, a bydd gan yr ysgol un Pennaeth, gyda rheolwr/wyr ar safleoedd gwahanol. Bydd gan yr ysgol un gyllideb ac un corff llywodraethol, a bydd yr holl safleoedd y derbyn arolygiadau Estyn yr un pryd – fel un ysgol.

Pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu yna byddai dalgylchoedd yr ysgolion presennol yn cael eu haddasu. Gweithredir Polisi Cludiant a Pholisi Mynediad yr Awdurdod fel yr arfer. Felly byddai unrhyw gais mynediad i'r Ysgol Aml-safle i'w ystyried fel cais i'r ysgol yn gyflawn. Byddai rheolaeth o ran mynediad i'r safleoedd gwahanol yn dod yn rhan o bolisïau'r ysgol.

**Rhagwelir y byddai'r opsiwn yma'n niwtral o ran ei effaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddai Ysgol Abersoch yn parhau. Byddai'r opsiwn hefyd yn cynnig cyfle i gyd-gynllunio'r cwricwlwm a chydrannu adnoddau ar draws safleoedd yr Ysgol Aml-Safle.**

- *Ffederaleiddio gydag Ysgol Sarn Bach a Llanbedrog, a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron.*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng yr ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

**Rhagwelir y byddai'r opsiwn yma'n niwtral o ran ei effaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddai Ysgol Abersoch yn parhau. Byddai'r opsiwn hefyd yn cynnig cyfle i gyd-gynllunio'r cwricwlwm a chydrannu adnoddau ar draws ysgolion y ffederasiwn.**

- *Ffederasiwn Enlli – (Ysgolion Abersoch, Llanbedrog, Sarn Bach, Pont Y Gof, Crud y Werin, Uwchradd Botwnnog a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron).*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng yr ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

**Rhagwelir y byddai'r opsiwn yma'n niwtral o ran ei effaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddai Ysgol Abersoch yn parhau. Byddai'r opsiwn hefyd yn cynnig cyfle i gyd-gynllunio'r cwricwlwm a chydrannu adnoddau ar draws ysgolion y ffederasiwn.**

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn cynnwys asesiad o'r effaith ieithyddol o gau Ysgol Abersoch, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol. Mae'r tabl hefyd yn amlinellu cyfleoedd i gryfhau'r iaith Gymraeg a dulliau i liniaru unrhyw effaith negyddol bosib all ddeillio o'r model.

**Asesu effaith ieithyddol cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol**

| Positif | Niwtral | Negyddol |
|---|---|---|

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith | Oes unrhyw fesurau wedi'u hadnabod i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i greu mwy o gyfleoedd positif | Effaith derfynol (yn dilyn dulliau lliniaru) |
|---|---|---|---|---|
| **Iaith yr ysgol (ffurfiol)** | Gan fod yr ysgol amgen (Ysgol Sarn Bach) fel Ysgol Abersoch yn ysgol Cymraeg ei chyfrwng, deuir i'r casgliad na fyddai'r cynnig yn cael effaith ar iaith addysg y plant.<br>Gan y byddai'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, gallasai'r cynnig gryfhau'r cyfleodd i ddisgyblion gymdeithasu yn y Gymraeg gyda'u cyfoedion. | Niwtral<br>Dim effaith ar sefyllfa iaith yr ysgol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Iaith yr ysgol (anffurfiol)** | Nodir fod canran uwch o ddisgyblion yn dod o gartrefi sydd yn gallu siarad Cymraeg yn Ysgol Sarn Bach (57%), o'i gymharu ag Ysgol Abersoch (33%). Wrth drosglwyddo disgyblion Ysgol Abersoch i Ysgol Sarn Bach, rhagwelir y byddai'r canran o ddisgyblion sydd yn dod o gartrefi Cymraeg oddeutu 54%. Ar sail hynny, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Abersoch ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach. | Positif | Cynllunio ieithyddol bwriadus gan Ysgol Sarn Bach i sicrhau effaith cadarnhaol ar yr iaith. | Positif |
| **Mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg** | Mae'r ysgol amgen yn ysgol Cymraeg ei chyfrwng, fel Ysgol Abersoch. Ni ragwelir felly y byddai'r cynnig yn effeithio ar y meini prawf hwn. | Niwtral<br>Dim effaith ar sefyllfa'r iaith | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Darpariaeth anstatudol** | Byddai gan ddisgyblion fynediad at gyflenwad uwch yn nhermau staffio, a byddent yn rhan o grŵp mwy o gyfoedion o'r un oedran. | Positif | Gallai'r awdurdod lleol a Chorff Llywodraethol Ysgol Sarn Bach drafod dulliau i sicrhau bod | Positif |


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | disgyblion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. | |
| **Gweithgareddau cyn / ar ôl ysgol** | Mae'r ysgol amgen yn ysgol fwy o ran niferoedd o ddisgyblion felly bydd y grwpiau cyfoedion yn fwy.<br><br>Fel Ysgol Abersoch, mae Ysgol Sarn Bach yn cynnig gweithgareddau cyn ac ar ôl ysgol, o ganlyniad ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y meini prawf hwn. | Niwtral | Gallai'r Awdurdod Lleol  a Chorff Llywodraethol Ysgol Sarn Bach ystyried unrhyw gyfleodd ychwanegol ar gyfer cynnal gweithgareddau ar ôl ysgol, gan sicrhau fod trefniadau mor hygyrch a bo modd i'r holl ddisgyblion. | Positif |
| **Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned** | Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd 43.5% o boblogaeth ward Abersoch yn siaradwyr Cymraeg.<br><br>Nodir fod canran uwch o ddisgyblion yn dod o gartrefi sydd yn gallu siarad Cymraeg yn Ysgol Sarn Bach (57%), o'i gymharu ag Ysgol Abersoch (33%). Fel canlyniad, o wireddu'r cynnig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Abersoch ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth.<br><br>Mae Ysgol Abersoch wedi gweithio'n galed i ddatblygu sgiliau dwyieithog y plant a hyrwyddo pwysigrwydd diwylliant Cymraeg o fewn y gymuned. O ganlyniad, gallai cau Ysgol Abersoch gael effaith negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned leol. | Niwtral | Gall yr Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol yr ysgol amgen ystyried dulliau o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yng nghymunedau Abersoch a Sarn Bach trwy gyfrwng gweithgareddau ar ôl ysgol. | Niwtral |

## 4. CASGLIAD

Ein disgwyliadau yw bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys, oed perthnasol er mwyn iddynt fod yn aelodau cyflawn o’r gymdeithas ddwyieithog maent yn rhan ohoni. Bydd angen i’r cynigion ar gyfer newid trefniadau lleol gymryd ystyriaeth lawn o’r holl effeithiau ieithyddol. Bydd cynnal a gwell defnydd o’r Gymraeg fel iaith addysgol a chymdeithasol ymhlith plant yn ystyriaeth allweddol wrth lunio cynigion o fewn yr ardal.

Nodwyd yn yr asesiad y byddai’r opsiynau i wneud dim (parhau efo’r sefyllfa bresennol), ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos, ac ymestyn ystod oed yr ysgol yn niwtral o ran eu heffaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddent yn golygu y byddai’r ysgol yn parhau ym mhentref Abersoch.

O safbwynt y cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i’r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach, ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar allu ieithyddol y plant. Byddai’r opsiwn yn golygu fod disgyblion Ysgol Abersoch yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. Nodir fod canran uwch o ddisgyblion yn dod o gartrefi sydd yn gallu siarad Cymraeg yn Ysgol Sarn Bach (57%), o’i gymharu ag Ysgol Abersoch (33%). Wrth drosglwyddo disgyblion Ysgol Abersoch i Ysgol Sarn Bach, rhagwelir y byddai’r canran o ddisgyblion sydd yn dod o gartrefi Cymraeg oddeutu 54%. Ar sail hynny, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Abersoch ddefnyddio’r Gymraeg yn anffurfiol gyda’u cyfoedion tu mewn a thu allan i’r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a’r defnydd anffurfiol o’r iaith yn gryfach. Mae Ysgol Abersoch wedi gweithio’n galed i ddatblygu sgiliau dwyieithog y plant a hyrwyddo pwysigrwydd y diwylliant Cymraeg. Mae’n bwysig felly bod y cynnig i symud y plant yn cydnabod yr angen i gefnogi a pharhau gyda’r gwaith hwn.




# Adroddiad Asesiad Llesiant Ysgol Abersoch

- Mai 2021

## Cynnwys


1. **CYFLWYNIAD**

2. **SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?**

3. **A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?**

4. **EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY**

5. **CASGLIAD**

# 1. CYFLWYNIAD

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd.
Gweledigaeth y Cyngor yw:

*Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi.*

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amcanion llesiant sydd yn ategu'r nodau llesiant cenedlaethol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyswllt rhwng ein hamcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol.

| **Byddwn yn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn:** | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu | Yn gyfrifol ar lefel byd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel | | | ■ | | ■ | | |
| Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau | | ■ | ■ | | ■ | | ■ |
| Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd | ■ | | | ■ | ■ | | |
| Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud | ■ | ■ | | ■ | | ■ | |
| Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl | ■ | | ■ | ■ | ■ | | |
| Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg | | | | | ■ | ■ | |
| Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir. | ■ | ■ | | | | | ■ |

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg disgyblion drwy eu gweithgareddau a'u prosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella yn "Cynllun Gwynedd 2018-2023".

## 1.1 Cyd-destun Ysgol Abersoch

Yn ei gyfarfod ar 17 Medi 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd roi caniatâd i'r Adran Addysg *"gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill Ysgol Abersoch yn sgil pryderon ynghylch niferoedd yr ysgol, i alluogi llunio ystod o opsiynau posibl yn ymwneud a dyfodol yr ysgol."*

Rhwng Hydref 2019 ac Ionawr 2020, cynhaliwyd 3 cyfarfod lleol gyda rhan-ddeiliaid Ysgol Abersoch ble cynigiwyd a thrafodwyd nifer o opsiynau. Yn dilyn gwerthuso'r opsiynau hynny, mireiniwyd y rhestr i 3 opsiwn i'w hystyried ymhellach, yn ychwanegol i'r model Gwneud Dim. Mae'r opsiynau hynny wedi eu manylu isod:

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

Er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r model Gwneud dim wedi ei gynnwys at ddiben cymharu.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng ysgol/ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynyddu ar gyfleoedd y disgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

Yn yr achos yma, am resymau daearyddol, ystyriwyd Ysgol Sarn Bach, ac Ysgol Llanbedrog fel opsiynau rhesymol ar gyfer y trefniant cydweithiol. Ni ystyriwyd Ysgol Foel Gron gan nad yw hi'n bosib ffederaleiddio ysgolion sydd â statws elusennol, gyda rhai sydd â statws Cymunedol.

- *Ymestyn ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed*

Ar hyn o bryd, mae ystod oedran Ysgol Abersoch yn golygu fod darpariaeth addysg yr ysgol yn dod i ben ar ddiwedd blwyddyn 3. Byddai ymestyn ystod yr oedran i 3-11 yn golygu fod yr ysgol yn cael parhau i addysgu disgyblion hyd ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, sef diwedd blwyddyn 6. Byddai hyn yn gyson gydag ystod oedran y mwyafrif o ysgolion cynradd y sir.

- *Cau Ysgol Abersoch a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol gyfagos*

Golygai'r opsiwn yma y byddai Ysgol Abersoch yn cau, ac y byddai disgyblion presennol yn cael cynnig lle yn Ysgol Sarn Bach (yr ysgol amgen).

Yn ei gyfarfod ar 15 Medi 2020, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd benderfynu ymgymryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach, ar y 1af Medi 2021. Cadarnhawyd y penderfyniad gan y Cabinet yn eu cyfarfod ar 3 Tachwedd 2020, yn dilyn i'r penderfyniad gwreiddiol gael ei alw mewn a'i gyfeirio'n ôl i'r Cabinet gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn ei gyfarfod ar 8 Hydref 2020.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 12 Ionawr a 23 Chwefror 2021, a derbyniwyd 154 ymateb i'r ymgynghoriad.

**Opsiynau pellach a ystyriwyd yn dilyn yr ymgynghoriad statudol:**

- *Ysgol Aml-Safle*

Yr hyn a olygir wrth Ysgol Aml-Safle yw y bydd un ysgol yn cael ei sefydlu ond ar ddwy neu dair safle. Yn statudol bydd gan yr ysgol un endid cyfreithiol, a bydd gan yr ysgol un Pennaeth, gyda rheolwr/wyr ar safleoedd gwahanol. Bydd gan yr ysgol un gyllideb ac un corff llywodraethol, a bydd yr holl safleoedd y derbyn arolygiadau Estyn yr un pryd – fel un ysgol.

Pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu yna byddai dalgylchoedd yr ysgolion presennol yn cael eu haddasu. Gweithredir Polisi Cludiant a Pholisi Mynediad yr Awdurdod fel yr arfer. Felly byddai unrhyw gais mynediad i'r Ysgol Aml-safle i'w ystyried fel cais i'r ysgol yn gyflawn. Byddai rheolaeth o ran mynediad i'r safleoedd gwahanol yn dod yn rhan o bolisïau'r ysgol.

- *Ffederaleiddio gydag Ysgol Sarn Bach a Llanbedrog, a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron.*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng yr ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

- *Ffederasiwn Enlli – (Ysgolion Abersoch, Llanbedrog, Sarn Bach, Pont Y Gof, Crud y Werin, Uwchradd Botwnnog a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron).*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng yr ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

***Daethpwyd i gasgliad yn dilyn asesiad manylach o'r opsiynau uchod, mae'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach oedd yn ymateb i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, sef niferoedd isel o ddisgyblion a dosbarthiadau bychain.***

## 2. SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?

Ystyriwyd amcanion llesiant Cyngor Gwynedd wrth werthuso'r opsiynau.

**Gwneud dim – parhau gyda'r sefyllfa bresennol.**

| **Amcanion** | Manylion: |
|---|---|
| **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau** | Dim effaith |
| **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd** | Dim effaith |
| **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud** | Dim effaith |
| **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg** | Dim effaith |
| **Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir** | Dim effaith. |

**Ymestyn ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed**

| **Amcanion** | Manylion: |
|---|---|
| **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau** | Dim effaith |
| **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd** | Dim effaith |
| **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud** | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn effeithio ar y nod hwn. Byddai proses statudol ynghlwm ag ymestyn yr ystod oedran. Ni ragwelir effaith ar drefniadau llywodraethol presennol. |
| **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg** | Dim effaith |
| **Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir** | Dim effaith. |

**Ffederaleiddio gydag Ysgol gyfagos**

| **Amcanion** | Manylion: |
|---|---|
| **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau** | Dim effaith |
| **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd** | Dim effaith |
| **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud** | Dim effaith. Byddai proses statudol ynghlwm a sefydlu ffederasiwn ffurfiol a sefydlu corff llywodraethol ffederal. Byddai'r opsiwn yn cynnig cyfleodd i rannu staff a rhannu arbenigeddau ar draws yr ysgolion. Byddai hefyd yn cynnig cyfleoedd i gydweithio ar faterion cwricwlaidd a datblygu cynlluniau ar y cyd. |
| **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg** | Dim effaith |
| **Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir** | Dim effaith. |

## Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach

| **Amcanion** | Manylion: |
|---|---|
| **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau** | Dim effaith |
| **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd** | Rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n arwain at ddiswyddiadau staff.<br>Datblygwyd polisi staffio manwl gan Gyngor Gwynedd mewn cydweithrediad ag Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd y polisi yn sail i unrhyw newid i gyflogaeth staff sy'n deillio o unrhyw gynnig.<br>Bydd cyfathrebu eglur ac agored yn greiddiol i weithrediad llwyddiannus unrhyw gynigion. |
| **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud** | Bydd sicrhau fod y disgyblion yn derbyn addysg o'r radd flaenaf yn greiddiol i'r cynnig, gan sicrhau y byddant yn derbyn addysg o'r un ansawdd a safon, fan lleiaf, yn yr ysgol amgen. |
| **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl** | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. |
| **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg** | Cynhaliwyd asesiad ardrawiad ieithyddol. Mae disgyblion Ysgol Abersoch yn byw mewn cymdeithas ble mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn bodoli ochr yn ochr a'i gilydd, ac yn cael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, fel Ysgol Sarn Bach. Nodir yr asesiad ardrawiad ieithyddol fod sefyllfa'r ysgol amgen yn gryf, gyda 57% o ddisgyblion yn dod o gartrefi sydd yn gallu siarad Cymraeg. O'i gymharu, mae 33% o ddisgyblion Ysgol Abersoch yn dod o gartrefi sydd yn gallu siarad Cymraeg. |
| **Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir** | Dim effaith |

## Ysgol Aml-Safle

| **Amcanion** | Manylion: |
|---|---|
| **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau** | Dim effaith |
| **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd** | Dim effaith |
| **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud** | Dim effaith. Byddai proses statudol ynghlwm a sefydlu Ysgol Aml-safle a sefydlu corff llywodraethol ar gyfer yr ysgol newydd. Byddai'r opsiwn yn cynnig cyfleodd i rannu staff a rhannu arbenigeddau ar draws safleoedd yr ysgol. Byddai hefyd yn cynnig cyfleoedd i gydweithio ar faterion cwricwlaidd a datblygu cynlluniau ar y cyd. |
| **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg** | Dim effaith |
| **Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir** | Dim effaith. |

## Ffederaleiddio gydag Ysgol Sarn Bach a Llanbedrog, a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron

| **Amcanion** | Manylion: |
|---|---|
| **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau** | Dim effaith |
| **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd** | Dim effaith |

| | |
|---|---|
| **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud** | Dim effaith. Byddai proses statudol ynghlwm a sefydlu ffederasiwn ffurfiol a sefydlu corff llywodraethol ffederal. Byddai'r opsiwn yn cynnig cyfleodd i rannu staff a rhannu arbenigeddau ar draws yr ysgolion. Byddai hefyd yn cynnig cyfleoedd i gydweithio ar faterion cwricwlaidd a datblygu cynlluniau ar y cyd. |
| **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg** | Dim effaith |
| **Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir** | Dim effaith. |

## Ffederasiwn Enlli – (Ysgolion Abersoch, Llanbedrog, Sarn Bach, Pont Y Gof, Crud y Werin, Uwchradd Botwnnog a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron).

| **Amcanion** | Manylion: |
|---|---|
| **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau** | Dim effaith |
| **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd** | Dim effaith |
| **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud** | Dim effaith. Byddai proses statudol ynghlwm a sefydlu ffederasiwn ffurfiol a sefydlu corff llywodraethol ffederal. Byddai'r opsiwn yn cynnig cyfleodd i rannu staff a rhannu arbenigeddau ar draws yr ysgolion. Byddai hefyd yn cynnig cyfleoedd i gydweithio ar faterion cwricwlaidd a datblygu cynlluniau ar y cyd. |
| **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl** | Dim effaith |
| **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg** | Dim effaith |
| **Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir** | Dim effaith. |

## 3. A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?

| Nod | Yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod yma? | Mesurau lliniaru effeithiau negyddol ar y nod yma: |
|---|---|---|
| **Cymru lewyrchus**<br>Cymdeithas arloesol sy'n defnyddio adnoddau'n ddarbodus, pobl addysgedig, sy'n creu cyfoeth a gwaith. | Byddai'r cynnig yn golygu fod disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran. Rhagwelir felly y byddai'n cyfoethogi profiadau dysgu a chymdeithasol y disgyblion.<br><br>Yn ogystal, mae'r cynnig yn cyfrannu at y nod trwy wneud defnydd darbodus o adnoddau.<br><br>Gallai gweithredu'r opsiwn yma arwain at staff yn colli eu swyddi. | Ymgynghorir yn benodol â staff a chynrychiolwyr undebau fel rhan o'r cyfnod ymgynghori statudol.<br><br>Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio manwl, ar y cyd ac Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau o ganlyniad i'r cynnig hwn gyd-fynd â'r polisi hwnnw. Bydd cyfathrebu clir ac agored yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynigion. |
| **Cymru gydnerth**<br>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch a gyda'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Dim effaith |
| **Cymru iachach**<br>Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall beth sy'n effeithio ar eu hiechyd. | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Dim effaith |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal**<br>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). | Datblygwyd y cynnig o fewn cyd-destun y Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd. Mae'r strategaeth yn amlinellu'r weledigaeth:<br>*"Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn"* | Nodai'r asesiad cydraddoldeb na ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar gydraddoldeb. Yn ogystal, nodwyd fod polisïau a threfniadau cadarn mewn lle a fyddai'n sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal. Nodir fod mesurau eisoes mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol ac aflonyddu. |
| **Cymru o gymunedau gydlynus**<br>Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. | Yn dilyn cynnal asesiad effaith ar y gymuned, daethpwyd i'r casgliad y bydd peth effaith negyddol ar y gymuned pe byddai'r ysgol yn cau. | Wrth gydnabod yr effaith negyddol y gallai cau'r ysgol gael ar gymuned Abersoch, nodir fod 35% o'r 26 o ddisgyblion (3-8) sy'n byw yn nalgylch Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. Credir felly fod cyswllt eisoes yn bodoli rhwng yr ysgol amgen â'r gymuned yn Abersoch. O weithredu'r cynnig bydd cyfle i adeiladu ar y cysylltiadau hyn sydd rhwng y gymuned yn Abersoch ac Ysgol Sarn Bach trwy gynnal trafodaethau fyddai'n hybu |

| | | |
|---|---|---|
| | | cynnwys cymuned Abersoch yng ngweithgarwch cymunedol yr ysgol. |
| **Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**<br>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. | Ni ragwelir effaith ar y nod hwn gan y byddai'r cynnig yn golygu y byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. | - |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.**<br>Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Dim effaith. |

## 4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY


| Egwyddorion Datblygu cynaliadwy | A yw'r cynnig yn ystyried yr egwyddor? |
|---|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. | Mae patrwm o niferoedd isel yn Ysgol Abersoch ers rhai blynyddoedd, a bellach mae'r sefyllfa yn fregus iawn. Gyda rhagamcanion yn dangos niferoedd yn parhau'n isel, deuir i'r casgliad fod yr heriau sy'n wynebu'r ysgol yn rhai hir dymor, ac felly mae'r achos dros newid yn glir. |
| **Atal**<br>**Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion?** | Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu gweithredu ymhellach, bydd anghenion y plant yn flaenoriaeth wrth ymgymryd ag unrhyw broses ad-drefnu. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. | Bu i'r awdurdod gychwyn y broses o adolygu sefyllfa'r ysgol yn sgil sefyllfa argyfyngus sy'n wynebu'r ysgol. |
| **Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. | Fel rhan o'r broses o werthuso'r opsiynau bu i'r Adran Addysg dderbyn mewnbwn gan nifer o adrannau eraill o fewn y Cyngor. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd lleol er mwyn derbyn mewnbwn cychwynnol rhan-ddeiliaid. |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y maent yn gwasanaethu. | Bydd y cynnig hwn yn destun ymgynghoriad statudol, ac ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc.<br>Hyd yma, mae'r broses wedi cynnwys cyfarfodydd lleol i ymgysylltu gyda'r rhan-ddeiliad perthnasol gan gynnwys rhieni, staff a llywodraethwyr Ysgol Abersoch. |

## 5. CASGLIAD

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i gasgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion. Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i ni ymateb i a diwallu anghenion y plant heddiw, a hefyd cryfhau eu llesiant i'r dyfodol.

Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda'r cynnig hwn, gall arwain at gau ysgol yng nghymuned Abersoch, fodd bynnag mae nifer helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys yr ysgol amgen, ac felly mae cyswllt rhwng Ysgol Sarn Bach a chymuned Abersoch eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau. Pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Sarn Bach yn cynnwys cymuned Abersoch, ble'n briodol.

Bydd y cynnig arfaethedig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.




# Adroddiad Asesiad Cydraddoldeb Ysgol Abersoch

- Mai 2021

## Cynnwys

1. **CYFLWYNIAD**

2. **OPSIYNAU**

3. **EFFAITH UNRHYW NEWID**

4. **DADANSODDI’R CANLYNIADAU**

5. **CASGLIAD**

# 1. CYFLWYNIAD

Mae Ysgol Abersoch wedi ei lleoli yng nghanol pentref Abersoch ger Pwllheli, ac yn darparu addysg ar gyfer disgyblion 3-8 oed. Mae gan yr ysgol gapasiti o 42 (Meithrin i Flwyddyn 3), ac ym mis Ionawr 2020, roedd ganddi 7 disgybl llawn amser (rhwng 4-8 oed), a 2 ddisgybl meithrin. Erbyn heddiw (Medi 2020), mae ganddi 8 disgybl llawn amser (rhwng 4-8 oed), a 2 ddisgybl meithrin.

Yn ei gyfarfod ar 17 Medi 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd roi caniatâd i'r Adran Addysg *"gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill Ysgol Abersoch yn sgil pryderon ynghylch niferoedd yr ysgol, i alluogi llunio ystod o opsiynau posibl yn ymwneud a dyfodol yr ysgol."*

Yn unol â phenderfyniad y Cabinet (17 Medi 2019), sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol Abersoch (PAY) gan wahodd y Corff Llywodraethol, rhieni a staff a'r Aelod Lleol i ymuno â'r panel a chymryd rhan yn y drafodaeth. Cynhaliwyd tri chyfarfod PAY rhwng Hydref 2019 ac Ionawr 2020 i drafod ystod o opsiynau i geisio datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu.

Yn ei gyfarfod ar 15 Medi 2020, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd benderfynu ymgymryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach, ar y 1af Medi 2021. Cadarnhawyd y penderfyniad gan y Cabinet yn eu cyfarfod ar 3 Tachwedd 2020, yn dilyn i'r penderfyniad gwreiddiol gael ei alw mewn a'i gyfeirio'n ôl i'r Cabinet gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn ei gyfarfod ar 8 Hydref 2020.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu cynnig/cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgol/ysgolion, mae'n ofynnol i'r Cyngor (yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd warchodedig).

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 12 Ionawr a 23 Chwefror 2021, a derbyniwyd 154 ymateb i'r ymgynghoriad.

## 2. OPSIYNAU

Cynigiwyd a thrafodwyd nifer o opsiynau yn ystod y cyfarfodydd lleol. Yn dilyn cynnal gwerthusiad o'r opsiynau hyn yn erbyn ffactorau'r Strategaeth, mireiniwyd y rhestr i 3 opsiwn i'w hystyried ymhellach, yn ychwanegol i'r opsiwn Gwneud Dim.

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

Er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r model Gwneud dim wedi ei gynnwys at ddiben cymharu.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng ysgol/ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynyddu ar gyfleoedd y disgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

Yn yr achos yma, am resymau daearyddol, ystyriwyd Ysgol Sarn Bach, ac Ysgol Llanbedrog fel opsiynau rhesymol ar gyfer y trefniant cydweithiol. Ni ystyriwyd Ysgol Foel Gron gan nad yw hi'n bosib ffederaleiddio ysgolion sydd â statws elusennol, gyda rhai sydd â statws Cymunedol.

- *Ymestyn ystod oedran Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed*

Ar hyn o bryd, mae ystod oedran Ysgol Abersoch yn golygu fod darpariaeth addysg yr ysgol yn dod i ben ar ddiwedd blwyddyn 3. Byddai ymestyn ystod yr oedran i 3-11 yn golygu fod yr ysgol yn gallu parhau i addysgu disgyblion hyd ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, sef diwedd blwyddyn 6. Byddai hyn yn gyson gydag ystod oedran y mwyafrif o ysgolion cynradd y sir.

- *Cau Ysgol Abersoch a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol gyfagos*

Golygai'r opsiwn yma y byddai Ysgol Abersoch yn cau, ac y byddai disgyblion presennol yn cael cynnig lle yn Ysgol Sarn Bach (yr ysgol amgen).

**Opsiynau pellach a ystyriwyd yn dilyn yr ymgynghoriad statudol:**

- *Ysgol Aml-Safle*

Yr hyn a olygir wrth Ysgol Aml-Safle yw y bydd un ysgol yn cael ei sefydlu ond ar ddwy neu dair safle. Yn statudol bydd gan yr ysgol un endid cyfreithiol, a bydd gan yr ysgol un Pennaeth, gyda rheolwr/wyr ar safleoedd gwahanol. Bydd gan yr ysgol un gyllideb ac un corff llywodraethol, a bydd yr holl safleoedd y derbyn arolygiadau Estyn yr un pryd – fel un ysgol.

Pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu yna byddai dalgylchoedd yr ysgolion presennol yn cael eu haddasu. Gweithredir Polisi Cludiant a Pholisi Mynediad yr Awdurdod fel yr arfer. Felly byddai unrhyw gais mynediad i'r Ysgol Aml-safle i'w ystyried fel cais i'r ysgol yn gyflawn. Byddai rheolaeth o ran mynediad i'r safleoedd gwahanol yn dod yn rhan o bolisïau'r ysgol.

- *Ffederaleiddio gydag Ysgol Sarn Bach a Llanbedrog, a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron.*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng yr ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

- *Ffederasiwn Enlli – (Ysgolion Abersoch, Llanbedrog, Sarn Bach, Pont Y Gof, Crud y Werin, Uwchradd Botwnnog a threfniant cydweithio hefo Ysgol Foel Gron).*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng yr ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

***Daethpwyd i gasgliad yn dilyn asesiad manylach o'r opsiynau uchod, mae'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach oedd yn ymateb i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu, sef niferoedd isel o ddisgyblion a dosbarthiadau bychain.***

## 3. EFFAITH UNRHYW NEWID

Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar y nodweddion hyn?

| Nodweddion | Sut fath o effaith? * | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Dim | Mae gan ysgolion Gwynedd bolisïau perthnasol ar waith i amddiffyn unigolion rhag unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar hil, megis Polisïau Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Gwrth-fwlio. Mae'r polisi Gwrth-fwlio a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn nodi canllawiau a gweithdrefnau gwrth-fwlio yn seiliedig ar ffactorau megis hil yn yr ysgol. Yn ogystal, fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei gweithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn<br>*"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."*<br>Ni ragwelir felly y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y nodwedd yma. |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Dim | Mae Cynllun Addysg Gymraeg y Cyngor yn gosod yr un gofynion ar bob ysgol, ac felly o ran gweithredu'r polisi, ni ragwelir y byddai effaith pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.<br>Cynhaliwyd asesiad effaith ieithyddol ar y cynnig yn ogystal. |
| **Anabledd** | Dim | Dan ofynion Polisi'r Cyngor, mae gofyn i ysgolion ddarparu Polisi Gwrth-fwlio, ac felly bydd disgwyl i'r ysgol amgen warchod yn erbyn bwlio ar sail anabledd, ac yn wir, ar unrhyw sail arall. Yn ogystal, mae gan ysgolion Gwynedd Gòd Ymarfer Cludiant.<br><br>Bydd angen i staff yr ysgol amgen ddarparu'r un lefel o ofal a bod yn ymwybodol o holl anghenion y disgyblion. |
| **Rhyw** | Dim | Ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith o safbwynt rhyw gan fod pob ysgol a effeithir yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:<br>*"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Oedran** | Dim – lled bositif. | Mae Ysgol Abersoch yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3-8 oed. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'n golygu fod y disgyblion yn trosglwyddo i ysgol gydag ystod oed o 3 i 11 ar un safle. Fodd bynnag, ni ragwelir y byddai hyn cael effaith negyddol – mae pob ysgol a effeithir yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn:<br>*"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Dim | Fe nodir yn y polisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei gweithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | *"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Crefydd neu Gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | Mae Ysgol Abersoch a'r ysgol amgen, sef Ysgol Sarn Bach yn ysgolion cymunedol – nid yw'r cynnig yn awgrymu newid hyn.<br><br>Mae gan bob ysgol Bolisi Cynhwysiad a fyddai'n delio ag unrhyw ddigwyddiad gwahaniaethol a allai godi yn yr ysgol, sy'n gysylltiedig â chrefydd neu gred. |
| **Ailbennu Rhywedd** | Dim | Fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei gweithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn<br>*"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Dim | - |
| **Priodas a Phartneriaeth Sifil** | Dim | - |

Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth.

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | Ni fyddai gweithredu'r cynnig yn newid dyletswydd statudol yr ysgolion a effeithir arnynt i amddiffyn disgyblion rhag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth. Y nod yw rhoi cyfle i'r disgyblion leisio'u barn mewn ffordd sy'n addas ac yn briodol o ystyried unrhyw ffactorau sy'n effeithio arnynt. Byddant yn parhau i ddefnyddio'r Cyngor Ysgol, gwersi ABCh, polisïau gwrth-fwlio a dulliau eraill i sicrhau bod yr ysgol yn gwahardd gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Nac ydi | Rhagwelir y bydd yr ysgol amgen yn parhau i hyrwyddo cyfleodd cyfartal. |
| **Meithrin perthnasau da** | Nac ydi | Gan fod rhai o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach mae'n deg nodi fod cysylltiad rhwng Ysgol Sarn Bach a chymuned Abersoch eisoes yn bodoli. Serch hynny, gallai cyfleoedd i adeiladu ymhellach ar y berthynas â'r gymuned yn Abersoch ddeillio o weithredu'r cynnig. |

## 4. DADANSODDI’R CANLYNIADAU

4.1 Ydi’r cynnig felly’n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o’r nodweddion cydraddoldeb neu’r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw’r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Gan fod Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach yn gweithredu’r un polisïau mewn perthynas â chydraddoldeb a gwrth fwlio, ni ragwelir y byddai’r cynnig yn cael effaith sylweddol ar unrhyw un o’r nodweddion cydraddoldeb neu’r Ddyletswydd Gyffredinol a gyfeirir atynt yn y ddogfen hon. |

4.2 Ydi’r cynnig felly’n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o’r nodweddion cydraddoldeb neu’r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw’r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Gan fod Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach yn gweithredu’r un polisïau mewn perthynas â chydraddoldeb a gwrth fwlio, ni ragwelir y byddai’r cynnig yn cael effaith sylweddol ar unrhyw un o’r nodweddion cydraddoldeb neu’r Ddyletswydd Gyffredinol a gyfeirir atynt yn y ddogfen hon. |

4.3 Beth ddylid ei wneud?

**Dewiswch un o’r canlynol:**

| | |
|---|---|
| Parhau gyda’r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | ✓ |
| Addasu’r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu’r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau â’r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

4.4 Os yn parhau â’r cynllun, pa gamau byddwch yn eu cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

| |
|---|
| I liniaru’r effaith ar y gymuned nodir cyfleon i sicrhau fod cymuned Abersoch yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle’n briodol. |

4.5 Monitro – pa gamau byddwch yn eu cymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu’r gwasanaeth (cynllun gweithredu)?

| |
|---|
| Cyfrifoldeb yr ysgol (a’r Corff Llywodraethol) yw gweithredu’r polisïau cydraddoldeb, a bydd yr Awdurdod, drwy ei weithdrefnau cymorth a monitro arferol, yn sicrhau cydymffurfiaeth. |

## 5. CASGLIAD

Ni ragwelir y byddai'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion Ysgol Sarn Bach yn achosi effeithiau negyddol o safbwynt cydraddoldeb. Mae ysgolion cynradd Gwynedd eisoes yn gweithredu polisi Cydraddoldeb sy'n nodi fod yr ysgolion yn *"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu parhau â'r cynnig hwn, ac os tynnir sylw at unrhyw effaith yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y Cyngor yn ceisio ffyrdd i'w lliniaru gan edrych yn benodol ar unrhyw awgrymiadau a gynhigir yn yr ymatebion.